Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Cyllid**

# Trafod yr ymgynghoriad ar y Bil Archwilio Cyhoeddus (Diwygio) (Cymru) drafft

Mawrth 2021




www.senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru/SeneddCyllid**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:


**Y Pwyllgor Cyllid**
**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddCyllid@senedd.cymru**
Twitter: **@SeneddCyllid**



**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2021**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Cyllid**

# Trafod yr ymgynghoriad ar y Bil Archwilio Cyhoeddus (Diwygio) (Cymru) drafft

Mawrth 2021

# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 22 Mehefin 2016. Ceir ei gylch gwaith yn:
www.senedd.cymru/SeneddCyllid

---

## Cadeirydd y Pwyllgor:



**Llyr Gruffydd AS**
Plaid Cymru

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Alun Davies AS**
Llafur Cymru



**Siân Gwenllian AS**
Plaid Cymru



**Mike Hedges AS**
Llafur Cymru



**Mark Isherwood AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Rhianon Passmore AS**
Llafur Cymru



**Mark Reckless AS**
Plaid Diddymu Cynulliad Cymru

---

Roedd yr Aelod a ganlyn hefyd yn aelod o'r Pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad hwn.



**Nick Ramsay AS**
Ceidwadwyr Cymreig

# Cynnwys

**Argymhellion** ..... 5

**1. Cyflwyniad** ..... 6

**2. Codi ffioedd** ..... 9

**3. Gwaith cytundeb** ..... 15

**4. Trefniadau cworwm** ..... 17

**5. Adroddiadau interim** ..... 20

**6. Gosod adroddiadau a chyfrifon** ..... 22

**7. Terfynau amser o ran ardystio** ..... 24

**8. Penodi archwilwyr cyfrifon Swyddfa Archwilio Cymru** ..... 26

**9. Penodi aelodau anweithredol a Chadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru** ..... 28

**10. Gofyniad i ymgynghori ar rai agweddau ar y broses benodi** ..... 31

**11. Materion yn ymwneud â deddfwriaeth archwilio cyhoeddus ehangach yng Nghymru** ..... 35

**12. Materion eraill** ..... 37

**13. Materion pellach a nodwyd** ..... 39

**14. Newidiadau drafftio eraill** ..... 42

**Atodiad A: Y Bil Archwilio Cyhoeddus (Diwygio) (Cymru) drafft (ôl-ymgynghori)** ..... 43

**Atodiad B: Nodiadau Esboniadol Drafft (ôl-ymgynghori)** ..... 64

# Argymhellion

**Argymhelliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai pwyllgor Senedd yn y dyfodol ystyried y gwaith craffu ar ôl deddfu a wnaed, gyda'r bwriad o gyflwyno'r Bil Archwilio Cyhoeddus (Diwygio) (Cymru) drafft sydd wedi'i atodi i'r adroddiad hwn cyn gynted â phosibl yn y Chweched Senedd, yn amodol ar ystyried materion sydd heb eu datrys, barn ffurfiol Llywodraeth nesaf Cymru a datblygu Memorandwm Esboniadol gydag Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i gostio'n llawn. .......... Tudalen 8

**Argymhelliad 2.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod pwyllgor yn y dyfodol yn y Chweched Senedd yn ystyried y darpariaethau anghymhwyso mewn perthynas â'r Goron (paragraff 26 o Atodlen 1 i Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013) fel rhan o unrhyw waith yn y dyfodol ar y Bil Archwilio Cyhoeddus (Diwygio) (Cymru). .......... Tudalen 40

**Argymhelliad 3.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod pwyllgor yn y dyfodol yn y Chweched Senedd yn ystyried y darpariaethau sy'n ymwneud â thalu treuliau'r Archwilydd Cyffredinol (adran 7 a pharagraff 13 o Atodlen 1 i Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013) fel rhan o unrhyw waith yn y dyfodol ar y Bil Archwilio Cyhoeddus (Diwygio) (Cymru). .......... Tudalen 41

# 1. Cyflwyniad

**1.** Yn 2019, cynhaliodd y Pwyllgor Cyllid (y Pwyllgor) waith craffu ar ôl deddfu ar Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 ac ystyried yr achos dros ddiwygio'r ddeddfwriaeth drwy ei ymchwiliad 'Trafodaeth o'r cynigion i ddiwygio Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013'.

**2.** Roedd gwaith craffu ar ôl deddfu'r Pwyllgor yn canolbwyntio ar ddau faes:

Ymchwilio i faterion a godwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn ymwneud â Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013; gan gynnwys:

- Codi ffioedd;
- Trefniadau cworwm Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru;
- Trefniadau adrodd Swyddfa Archwilio Cymru;
- Problemau â gosod cyfrifon ac adrodd arnynt.

Ystyried i ba raddau y gallai fod yn fanteisiol adolygu agweddau eraill ar Ddeddf 2013.

**3.** Adroddodd y Pwyllgor ar ei ganfyddiadau ym mis Rhagfyr 2019 ac ymgynghorodd wedi hynny ar Fil Archwilio Cyhoeddus (Diwygio) Cymru drafft. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 16 Rhagfyr 2019 a 7 Chwefror 2020.

**4.** Roedd yr ymgynghoriad, a geisiodd farn ar yr egwyddorion y tu ôl i'r newidiadau arfaethedig i Ddeddf 2013 a drafftio darpariaethau cyfatebol, yn cynnwys 26 o gwestiynau mewn perthynas â'r canlynol:

- Codi ffioedd
- Gwaith cytundeb
- Trefniadau cworwm
- Adroddiadau interim
- Gosod adroddiadau a chyfrifon
- Terfynau amser o ran ardystio

- Penodi archwilwyr cyfrifon Swyddfa Archwilio Cymru
- Penodi Cadeirydd ac aelodau anweithredol Swyddfa Archwilio Cymru
- Gofyniad i ymgynghori ar rai agweddau ar y broses benodi
- Materion o ran deddfwriaeth archwilio cyhoeddus ehangach yng Nghymru
- Materion eraill (goblygiadau ariannol a sylwadau cyffredinol ar y Bil drafft)

**5.** Cafodd y Pwyllgor ddeuddeg o ymatebion i'w ymgynghoriad, gan y canlynol:

| Cyfeirnod | Sefydliad |
|---|---|
| PAAW 01 | Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| PAAW 02 | Estyn |
| PAAW 03 | Comisiwn y Cynulliad *(Comisiwn y Senedd bellach)* |
| PAAW 04 | Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru |
| PAAW 05 | Cyngor y Gweithlu Addysg |
| PAAW 06 | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| PAAW 07 | Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru |
| PAAW 08 | Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan |
| PAAW 09 | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr |
| PAAW 10 | Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru |
| PAAW 11 | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| PAAW 12 | Cyngor Celfyddydau Cymru |

**6.** Dylid darllen yr adroddiad hwn ar y cyd ag adroddiad blaenorol y Pwyllgor ar ei ystyriaeth o gynigion i ddiwygio Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013.[1] Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi barn rhanddeiliaid ar gynigion drafft y Bil ac yn manylu ar newidiadau pellach a gynigiwyd gan y Pwyllgor o ganlyniad i'r ymarfer ymgynghori. Mae hefyd yn ystyried materion sydd wedi codi ers i'r ymgynghoriad ddod i ben. Dangosir newidiadau i'r Bil drafft a'r Nodiadau Esboniadol yn Atodiad A a B yn y drefn honno.

[1] Lle bo hynny'n briodol, mae cyfeiriadau at "Senedd" a "Chomisiwn y Senedd" wedi disodli cyfeiriadau at "Gynulliad Cenedlaethol Cymru", "Cynulliad" a "Chomisiwn y Cynulliad", yn dilyn deddfu Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020.

**7.** O ystyried yr amser cyfyngedig sydd ar ôl yn y Pumed Senedd a'r pandemig coronafeirws parhaus, nid yw'r Pwyllgor wedi gallu cyflwyno'r Bil. Er bod y Pwyllgor yn ymwybodol bod swyddogion Llywodraeth Cymru yn trafod eu pryderon ynghylch y newidiadau polisi a gynigir yn y Bil drafft gyda swyddogion Swyddfa Archwilio Cymru, nid yw Llywodraeth Cymru wedi ymateb yn ffurfiol i'r ymgynghoriad.

**8.** Ar 10 Mawrth 2021, amlinellodd y Gweinidog y rhesymau dros beidio ag ymateb yn ffurfiol i'r ymgynghoriad ar y Bil drafft:

> "The reason why we were unable to respond to the consultation at the time was essentially a timing issue, because it was in that period when we were expecting to leave the EU, and all of our efforts were focused, then, on potentially preparing Wales for a 'no deal' scenario. So, unfortunately, it was related to timing, but there were meetings that took place to explore this issue further, and the Welsh Government did provide feedback to Audit Wales on the proposed changes, and I know officials had a number of opportunities to discuss the potential implications.
>
> We're in agreement with some of the proposals, but did feel that further discussions were needed on a number of issues, and our concerns were shared with the committee, so that you were aware of them. We also expressed some doubt as to whether or not it would be possible to legislate during this current term of Government, just given all of the pressures of the other legislation, and of course this was before COVID came along as well. So, that essentially sets out where we are. We see merit in some of the proposals, but have some concern that there should be further discussions around, for example, the interim report, the laying of the Audit Wales accounts, and some of the other areas that were being proposed."[2]

**Argymhelliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai pwyllgor Senedd yn y dyfodol ystyried y gwaith craffu ar ôl deddfu a wnaed, gyda'r bwriad o gyflwyno'r Bil Archwilio Cyhoeddus (Diwygio) (Cymru) drafft sydd wedi'i atodi i'r adroddiad hwn cyn gynted â phosibl yn y Chweched Senedd, yn amodol ar ystyried materion sydd heb eu datrys, barn ffurfiol Llywodraeth nesaf Cymru a datblygu Memorandwm Esboniadol gydag Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i gostio'n llawn.

[2] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Mawrth 2021, paragraffau 88-89

# 2. Codi ffioedd

**9.** Trafodir y drefn codi ffioedd gyfredol a'r materion o ran darpariaethau Deddf 2013 ym Mhennod 3 o adroddiad y Pwyllgor, sef Trafodaeth o'r cynigion i ddiwygio Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013.

## Cynnig

Diwygio Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 er mwyn:

- dileu'r gofyniad na ddylai ffioedd fod yn fwy na chost lawn y swyddogaeth y maent yn ymwneud â hi, a
- galluogi Swyddfa Archwilio Cymru i sicrhau bod swm y ffioedd a godir am yr holl waith a wneir yn cyfateb yn fras i'r cyfanswm a wariwyd mewn cysylltiad â'r gwaith hwnnw, gan gymryd un flwyddyn gydag un arall.

Cadw'r gofyniad i ffioedd gael eu talu gan y corff y mae'r swyddogaeth yn ymwneud ag ef er mwyn sicrhau tryloywder i gyrff a archwilir, ymgysylltiad effeithiol yn yr archwiliad ac i gynnal y berthynas rhwng yr archwilydd a'r corff a archwilir.

## CWESTIYNAU'R YMGYNGHORIAD

### Cwestiwn 1

**A ydych yn cytuno y dylid rhoi hyblygrwydd i Swyddfa Archwilio Cymru o ran sut y mae'n codi ac yn gweinyddu ei ffioedd drwy ganiatáu iddi adennill costau yn fras, gan gymryd un flwyddyn gydag un arall?**

| Ymateb | Nifer |
|---|---|
| Ydw | 6 |
| Nac ydw | - |
| Niwtral | 3 |

**10.** Awgrymodd y rhai a gytunodd â'r cynnig y canlynol:

- roedd yn parhau i fod yn bwysig bod Swyddfa Archwilio Cymru yn dangos gwerth am arian (Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda)

- roedd rhwymedigaeth ar gyrff cyhoeddus i wneud arbedion effeithlonrwydd ond roedd hyblygrwydd yn bwysig er mwyn i sefydliadau'r sector cyhoeddus "fantoli eu cyfrifon" (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam)

- mae tryloywder y trefniadau newydd yn hanfodol (Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr).

**11.** Awgrymodd yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru y byddai'r trefniadau newydd yn cael gwared ar anghymhelliad sylweddol i wella effeithlonrwydd archwilio ac yn caniatáu agwedd tymor hwy tuag at gynllunio'r gweithlu.

**12.** Roedd y rhai na fynegodd farn gadarnhaol na negyddol amlwg yn cynnwys Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru, a awgrymodd nad oedd ganddo wrthwynebiad oni bai fod cynnydd sylweddol mewn ffioedd, a bod angen diffinio "adennill costau yn fras, gan gymryd un flwyddyn gydag un arall" yn gliriach (Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan).

**13.** Soniwyd hefyd y dylid cael hawl i herio ffioedd (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam) ac efallai y bydd gofyn am broses uwchgyfeirio neu anghydfod yn ymwneud â ffioedd (Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda).

## Cwestiwn 2

**Os felly, a ydych yn cytuno â'r dull a gymerwyd yn adran 3 ac adran 4 o'r Bil Drafft?**

| Ymateb | Nifer |
|---|---|
| Ydw | 5 |
| Nac ydw | - |
| Niwtral | 3 |

**14.** Cyfeiriodd llawer o'r rhai a ymatebodd at wybodaeth a ddarparwyd fel rhan o'u hateb i Gwestiwn 1. Soniodd Estyn y nodwyd bod y newid yn gwella effeithlonrwydd o bosibl, ond bod "angen craffu priodol er mwyn darparu sicrwydd bod y darparwr gwasanaeth yn gweithredu'n effeithlon ac yn effeithiol".

**15.** Awgrymodd yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru fod y darpariaethau arfaethedig yn llymach na'u cynigion cychwynnol, yn yr ystyr nad ydynt yn caniatáu agregu rhwng cyrff. Dadleuodd yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru y byddai cadw'r gofyniad i'r corff dalu ffioedd yn atal

trawsgymhorthdal rhwng cyrff, a nodwyd anfantais y dull hwn yn eu hymateb i'r ymgynghoriad:

> "Byddai trawsgymhorthdal o'r fath yn aml yn deg ac yn briodol hefyd, megis lle mae technegau archwilio newydd wrthi'n cael eu cyflwyno. (Yn aml, bydd ar y cyrff cyntaf, fydd yn destun datblygiadau o'r fath, angen mwy o amser archwilio na chyrff diweddarach. Gydag agregu costau yn cael ei gyfyngu i bob corff bydd y cyrff cyntaf, heb ddim bai arnynt hwy, yn wynebu ffioedd uwch na'r rhai diweddarach.)"[3]

**16.** Er mwyn mynd i'r afael â'r mater hwn, awgrymodd yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru y dylid addasu'r gofyniad agregu yn y ddeddfwriaeth i ganiatáu diystyru gwariant a ariennir o Gronfa Gyfunol Cymru at ddibenion cyfrifo ffioedd. Barn yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru yw y gallai hyn, yn amodol ar gymeradwyaeth y Pwyllgor, alluogi gweithredu technegau newydd yn gynnar i gael eu hariannu gan Gronfa Gyfunol Cymru yn hytrach na chael eu hysgwyddo gan y cyrff sy'n destun technegau o'r fath yn gyntaf. Awgrymodd yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru y byddai hefyd yn hwyluso parhad trefniadau cymhorthdal cyfredol eraill, er enghraifft, lle mae'r Pwyllgor wedi awdurdodi cyllid Cronfa Gyfunol Cymru ar gyfer y Fenter Twyll Genedlaethol er mwyn annog cyfranogiad gwirfoddol. Mae'r cymhorthdal hwn yn caniatáu i'r ffi i gyrff archwiliedig sy'n cymryd rhan yn y Fenter Twyll Genedlaethol wneud hynny heb unrhyw ffi.

**17.** Mae'r Pwyllgor o'r farn nad yw cadw'r cysylltiad rhwng y corff sy'n derbyn gwasanaethau gan yr Archwilydd Cyffredinol/Swyddfa Archwilio Cymru a'r cyfrifoldeb dros dalu am y gwasanaethau hynny yn atal cymhorthdal ffrydiau gwaith yn gyffredinol. Fodd bynnag, mae'n atal cymhorthdal rhwng cyrff o'r fath (h.y. trawsgymhorthdal), yn unol â chasgliad y Pwyllgor yn dilyn ei waith craffu ar ôl deddfu na ddylid caniatáu'r math hwn o gymhorthdal. Gyda chymeradwyaeth y Senedd, mae Swyddfa Archwilio Cymru eisoes yn defnyddio cronfeydd y pleidleisiwyd iddi drwy'r broses gyllidebol flynyddol i gwrdd â gwariant mewn achosion priodol, megis er mwyn sybsideiddio'r broses o weithredu technegau newydd yn gynnar.

**Newid i'r Bil drafft:**

Mewnosodwyd drafftio ychwanegol yn adran 4(4) o'r bil drafft i ddarparu'n benodol bod costau Swyddfa Archwilio Cymru sy'n cael eu had-dalu o ffynonellau eraill yn cael eu disgowntio wrth gyfrifo atebolrwydd ffioedd i gyrff

[3] Ymateb i'r ymgynghoriad: PAAW 10 - Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru

archwiliedig, er mwyn rhoi eglurder nad yw'r cynigion yn atal cymhorthdal o Gronfa Gyfunol Cymru, na ffynonellau eraill, lle bo hynny'n briodol ac wedi'u cymeradwyo gan y Senedd.

**18.** Cododd yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru rai materion technegol yn ymwneud â'r darpariaethau ynghylch codi ffioedd yn y Bil drafft.

**19.** Nodwyd nad yw'r Bil fel y'i drafftiwyd yn cynnwys rhai pwerau codi ffioedd presennol eraill (y tu allan i Ddeddf 2013) o fewn y drefn "cyfwerthedd eang" newydd ac argymhellwyd y dylid ymgorffori'r pwerau hynny o fewn cwmpas y drefn ffioedd newydd.

**Newid i'r Bil drafft:**

Mae adrannau 3 a 4 o'r Bil drafft wedi'u diwygio i'w gwneud yn ofynnol i'r cynllun ffioedd statudol (a gyhoeddwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru o dan adran 24 o Ddeddf 2013) gynnwys y cysyniad o "gyfwerthedd eang" sy'n codi tâl am yr holl bwerau codi ffioedd statudol, ac eithrio gwaith cytundeb, yn lle cyfyngu cyfwerthedd eang i'r darpariaethau codi ffioedd yn adran 23 o Ddeddf 2013.

**20.** Gofynnodd yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru a oedd y ddarpariaeth arfaethedig yn adran 3 o'r Bil drafft, a oedd yn darparu y "caniateir iddynt gael eu hagregu a'u codi ar sail cyfwerthedd eang" yn rhoi disgresiwn i Swyddfa Archwilio Cymru ynghylch y sail y gellid codi ffioedd arni. Y bwriad drafftio mewn perthynas â'r ddarpariaeth hon mewn gwirionedd oedd rhoi'r gallu statudol i Swyddfa Archwilio Cymru agregu ffioedd ar gyfer corff penodol, yn hytrach na disgresiwn ar sail codi ffioedd yn benodol.

**Newid i'r Bil drafft:**

Mae'r Bil drafft bellach yn cynnwys (yn adran 4(3)) darpariaeth newydd sy'n dileu unrhyw gyfeiriad at agregu ffioedd, ar y sail y byddai agregu o'r fath yn gam angenrheidiol wrth weinyddu trefn ffioedd yn seiliedig ar y cysyniad o gyfwerthedd eang. Felly mae'r ddarpariaeth ddiwygiedig wedi'i chyfyngu i fynnu, yn y cynllun ffioedd statudol, darpariaeth y mae'n rhaid i Swyddfa Archwilio Cymru godi ffioedd ar sail cyfwerthedd eang.

**21.** Mynegodd yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru bryderon hefyd efallai na fydd cadw'r defnydd o'r term "swyddogaeth" yn y derminoleg sy'n ymwneud â chodi ffioedd yn y Bil drafft, yn hytrach na disgrifio'r gallu i godi

ffioedd drwy gyfeirio at "waith" a wneir, yn cwmpasu dyletswyddau a phwerau ymhlyg, ac oherwydd hynny'n arwain at yr angen parhaus am ddadansoddiad manwl o'r amser a dreulir ar swyddogaethau penodol.

**22.** Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor o'r farn y dylid cadw'r derminoleg yn y Bil drafft sy'n cyfeirio at "swyddogaethau" am y rhesymau a ganlyn:

- Mae'r term "swyddogaeth" yn disgrifio cylch gwaith statudol yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru, h.y. eu pwerau a'u dyletswyddau cyfreithiol priodol. Os yw'r Archwilydd Cyffredinol neu Swyddfa Archwilio Cymru yn ymgymryd â gwaith yr ystyrir ei fod yn rhan o'u priod swyddogaethau statudol drwy oblygiad (hynny yw, rhan angenrheidiol o'u priod gylchoedd gwaith na ddarperir yn benodol ar eu cyfer mewn deddfwriaeth), yna dylid ystyried bod y gwaith hwnnw'n rhan o'u swyddogaethau.

- Pe bai ansicrwydd p'un a yw categori penodol o waith o fewn cylch gwaith statudol yr Archwilydd Cyffredinol neu Swyddfa Archwilio Cymru, ni fyddai cyflwyno'r gallu i godi tâl am "waith a wneir", yn hytrach na mewn perthynas â "swyddogaethau sy'n cael eu harfer", yn ei ddatrys. Fodd bynnag, byddai perygl iddo greu sefyllfa annymunol lle byddai Swyddfa Archwilio Cymru yn ceisio codi tâl am waith "anghyfreithlon" a wneir o dan bŵer a fyddai (gellir dadlau) yn ei galluogi i godi tâl am y gwaith hwnnw.

- Mae'r cysyniad o "swyddogaethau" wedi'i gysylltu'n annatod â chylch gwaith statudol yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru, fel y nodir yn adran 25 o Ddeddf 2013, sy'n darparu i'r Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru baratoi cynllun blynyddol yn nodi rhaglenni gwaith ar ddechrau bob blwyddyn ariannol. Diffinnir "rhaglenni gwaith" yn y cyd-destun hwn yn Neddf 2013 drwy gyfeirio at eu "swyddogaethau" priodol.

**23.** Ar wahân, mae'r Pwyllgor wedi ystyried mân welliant technegol i ddarpariaethau adran 2 o'r Bil drafft (gan ddiwygio adran 19 o Ddeddf 2013) sy'n ymwneud â chodi ffioedd am waith cytundeb. Fel y'i drafftiwyd, mae adran 19 yn darparu (yn is-adran (7)) y caiff Swyddfa Archwilio Cymru wneud trefniadau ar gyfer gwaith a wneir o dan yr adran honno "ar y telerau, gan gynnwys telerau ynghylch tâl, sy'n briodol ym marn SAC".

**Newid i'r Bil drafft:**

Oherwydd bod y Bil drafft wedi mewnosod darpariaeth codi ffioedd benodol yn adran 19, bernir bod y geiriad "gan gynnwys telerau ynghylch tâl" yn ddiangen a gall achosi ansicrwydd. Yn unol â hynny, mae adran 2(4) y Bil drafft bellach yn cynnig dileu'r geiriad hwnnw o adran 19(7) o Ddeddf 2013.

**24.** At hynny, yn y diffiniad o "cyfwerthedd eang" yn adran 4, gwnaed newid i'r Bil drafft ynghylch y cyfeiriad at "wariant" Swyddfa Archwilio Cymru.

**Newid i'r Bil drafft:**

Mae adran 4(4) o'r Bil drafft yn disodli'r cyfeiriad at "wariant" Swyddfa Archwilio Cymru gan gyfeirio at "gostau uniongyrchol ac anuniongyrchol" Swyddfa Archwilio Cymru y gellir eu priodoli i gorff wrth gyfrifo'r ffioedd sydd i'w codi. Y rheswm dros y gwelliant hwn yw bod cyfeiriad at "gostau" yn ymhlyg yn eithrio arian a ad-dalwyd o ffynonellau eraill (megis cymhorthdal o Gronfa Gyfunol Cymru), yn hytrach na gwariant, sy'n golygu'n syml arian allan, p'un a yw'n cael ei gydbwyso gan arian i mewn ai peidio.

# 3. Gwaith cytundeb

**25.** Trafodir y mater a nodwyd yn narpariaeth Deddf 2013 o ran gwaith cytundeb ym Mhennod 4 o adroddiad y Pwyllgor, sef Trafodaeth o'r cynigion i ddiwygio Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013.

## Cynnig

Diwygio Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 i ddileu'r cysylltiad rhwng gwaith cytundeb a'r cynllun ffioedd er mwyn caniatáu i Swyddfa Archwilio Cymru bennu ei thelerau a'i hamodau ei hun. Byddai hyn yn galluogi Swyddfa Archwilio Cymru i ennill ffioedd ychwanegol o fewn rheswm i'w hailfuddsoddi yn y sefydliad neu eu hildio i Gronfa Gyfunol Cymru, cyhyd â bod mesurau diogelwch digonol ar waith i amddiffyn ei gwaith statudol ac atal gwrthdaro buddiannau.

CWESTIYNAU'R YMGYNGHORIAD

### Cwestiwn 3

**A ydych yn cytuno y dylid caniatáu i Swyddfa Archwilio Cymru bennu ei thelerau a'i hamodau ei hun ar gyfer gwaith cytundeb?**

| Ymateb | Nifer |
|---|---|
| Ydw | 7 |
| Nac ydw | 1 |
| Niwtral | - |

**26.** Gwnaeth y rhai a ymatebodd yn gadarnhaol hynny ar y sail y byddai'r newid o fudd i sector cyhoeddus Cymru (Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan), er bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi awgrymu nad oedd yn teimlo y byddai'r symiau a oedd yn cael eu trafod yn berthnasol o ran cyllid sector cyhoeddus Cymru. Teimlai Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam hefyd nad oedd unrhyw reswm pam na allai Swyddfa Archwilio Cymru wneud elw os enillir gwaith ar sail gystadleuol. Roedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn cytuno â'r cynnig os oedd yn galluogi gostyngiad mewn "biwrocratiaeth ddiangen a chostau diangen".

**27.** Nododd Estyn y bydd rheolaeth Bwrdd dros lefel y gwaith cytundeb yn bwysig i sicrhau bod y buddion wedi'u nodi'n glir ac nad yw'r cyfryw waith yn peryglu gweithgareddau craidd a chyfrifoldebau statudol.

**28.** Nid oedd Cyngor Celfyddydau Cymru yn cytuno â'r cynnig. Nododd fod cwestiwn ehangach ynghylch p'un a ddylai sefydliad cyfyngedig o ran adnoddau sy'n cael ei ariannu'n gyhoeddus fod yn darparu'r gwasanaethau hynny yn y lle cyntaf. Aeth ymlaen i ddweud nad diben Swyddfa Archwilio Cymru yw creu gwargedion i Lywodraeth Cymru.

## Cwestiwn 4

**Os felly, a ydych yn cytuno â'r dull a gymerwyd yn adran 2 o'r Bil Drafft?**

| Ymateb | Nifer |
|---|---|
| Ydw | 6 |
| Nac ydw | 1 |
| Niwtral | - |

**29.** Ymatebodd Cyngor Celfyddydau Cymru yn negyddol i'r darpariaethau a nodir yng Nghwestiwn 4, gan awgrymu y gellid rhagdybio bod y dull costio llawn wedi'i gynnwys yn wreiddiol i atal gweithgareddau gwneud elw o'r fath. Roedd y chwe ymateb arall i'r cwestiwn hwn yn gadarnhaol, heb unrhyw sylwadau ychwanegol y tu hwnt i'r ymateb i Gwestiwn 3.

Ni chynigir unrhyw newidiadau pellach i'r Bil drafft mewn perthynas â gwaith cytundeb.

# 4. Trefniadau cworwm

**30.** Amlinellir y problemau a wynebwyd gyda'r darpariaethau cworwm presennol ym Mhennod 5 o adroddiad y Pwyllgor, sef Trafodaeth o'r cynigion i ddiwygio Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013.

## Cynnig

Cadw'r gofyniad am fwyafrif o aelodau anweithredol er mwyn sicrhau goruchwyliaeth annibynnol a darparu her adeiladol i'r cyfarwyddwyr gweithredol, ond diwygio paragraff 28(3) o Atodlen 1 i Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 er mwyn caniatáu i aelodau gweithredol barhau'n bresennol mewn cyfarfod ond i beidio â phleidleisio os na fydd mwyafrif o aelodau anweithredol yn bresennol.

CWESTIYNAU'R YMGYNGHORIAD

### Cwestiwn 5

**A ydych yn cytuno y dylid cadw gofyniad presennol Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru o ran cworwm mewn deddfwriaeth, sef y gofyniad am fwyafrif o aelodau anweithredol?**

| Ymateb | Nifer |
|---|---|
| Ydw | 4 |
| Nac ydw | 3 |
| Niwtral | - |

**31.** Ymatebodd pedwar sefydliad yn gadarnhaol i Gwestiwn 5, gan awgrymu mai hwn oedd y dull cywir. O'r rhai a ymatebodd yn gadarnhaol, awgrymodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr y dylid cadw'r gofyniad cworwm mewn deddfwriaeth i sicrhau goruchwyliaeth annibynnol a darparu heriau adeiladol i'r cyfarwyddwyr gweithredol.

**32.** Roedd Estyn yn anghytuno â'r gofyniad cworwm, gan awgrymu, er bod yr aelodaeth yn ymddangos yn briodol, bod "achos dros hyblygrwydd mewn perthynas â gofynion cworwm". Nododd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy fod y sefyllfa bresennol "yn amlwg" yn broblemus ac y dylid ystyried trefniant mwy ymarferol.

**33.** Roedd yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru hefyd yn anghytuno â'r gofyniad cworwm, gan awgrymu nad oedd cynnwys cworwm yn y ddeddfwriaeth yn ddefnyddiol. Fodd bynnag, awgrymwyd y bydd y newid arfaethedig, i ganiatáu sylwedydd, yn gwneud mater o ran y cworwm yn llai o broblem.

## Cwestiwn 6

**Os na fydd mwyafrif yr aelodau sy'n bresennol mewn cyfarfod o fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru yn aelodau anweithredol, a ydych yn cytuno y dylid caniatáu i aelod gweithredol barhau'n bresennol mewn cyfarfod, ond heb yr hawl i bleidleisio, er mwyn bodloni'r gofyniad o ran cworwm?**

| Ymateb | Nifer |
|---|---|
| Ydw | 6 |
| Nac ydw | 1 |
| Niwtral | - |

**34.** Awgrymodd rhai a oedd yn cytuno fod y dull yn rhesymol (Estyn a Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan) a chydnabu'r mwyafrif bach ar y Bwrdd (Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr). Er bod Cyngor Celfyddydau Cymru yn cytuno'n fras, nododd ystyriaeth ymarferol o ran gwrthdaro buddiannau.

**35.** Nid oedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn cytuno â'r cynnig ac awgrymodd fod y cwestiwn yn anghyson â'r cynnig yn y Bil drafft. Aeth ymlaen i nodi ei bod yn bwysig bod pob aelod gweithredol yn cael pleidleisio mewn cyfarfod Bwrdd.

## Cwestiwn 7

**Os felly, a ydych yn cytuno â'r dull a gymerwyd yn adran 13 o'r Bil Drafft?**

| Ymateb | Nifer |
|---|---|
| Ydw | 4 |
| Nac ydw | - |
| Niwtral | 1 |

**36.** Ailadroddodd y rhai a gytunodd eu hymatebion i Gwestiynau 5 a 6. Atebodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn niwtral, gan awgrymu efallai y bydd angen

darparu canllawiau pellach ar yr adran hon o'r Bil drafft ynglŷn â'r modd y gofynnir i aelod sy'n gyflogai esgusodi ei hun rhag pleidleisio".

**37.** Er bod yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru yn cytuno'n fras â'r datrysiad a gynigir yn y Bil drafft, maent wedi awgrymu diwygiadau technegol i'w roi y tu hwnt i amheuaeth bod y gofyniad cworwm yn cael ei lacio o dan yr amgylchiadau lle mae aelod sy'n gyflogai yn mynychu cyfarfodydd Swyddfa Archwilio Cymru fel sylwedydd.

**38.** Mae'r Pwyllgor wedi penderfynu dileu'r cysyniad o "sylwedydd" yn y Bil drafft, oherwydd gallai diffinio "sylwedydd" o dan yr amgylchiadau hyn arwain at anawsterau ac ansicrwydd, a rhoi yn ei le gyfeiriad at aelodau sy'n gyflogeion nad ydynt yn "pleidleisio".

**Newid i'r Bil drafft:**

Mae'r Bil drafft bellach yn cynnig (yn adran 13 (2)) caniatáu i Swyddfa Archwilio Cymru nodi yn ei rheolau nad yw aelod(au) sy'n gyflogeion ac sy'n bresennol ond "ddim yn pleidleisio" yn cyfrif fel rhai sy'n bresennol at ddibenion y cworwm. Byddai hyn yn caniatáu i aelodau sy'n gyflogeion gymryd rhan mewn cyfarfodydd, ar yr amod nad yw'r aelodau hynny'n cymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau.

# 5. Adroddiadau interim

**39.** Trafodir y gofyniad i lunio adroddiad interim o leiaf unwaith y flwyddyn ym Mhennod 6 o adroddiad y Pwyllgor, sef Trafodaeth o'r cynigion i ddiwygio Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013.

## Cynnig

Newid y gofyniad ym mharagraff 3(3) o Atodlen 2 i Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 i lunio adroddiad interim o leiaf unwaith y flwyddyn a chynnwys darpariaeth yn lle hynny sy'n ei gwneud yn ofynnol llunio adroddiad interim (fel y'i diffinnir ar hyn o bryd) os bydd y Seneddyn gwneud cais am hynny.

CWESTIYNAU'R YMGYNGHORIAD

### Cwestiwn 8

**A ydych yn cytuno na ddylai fod yn ofynnol mwyach i Archwilydd Cyffredinol Cymru a Chadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru lunio adroddiad interim o leiaf unwaith y flwyddyn, ond y dylid cynnwys gofyniad mewn deddfwriaeth i lunio adroddiad interim ar gais y Senedd?**

| Ymateb | Nifer |
|---|---|
| Ydw | 5 |
| Nac ydw | - |
| Niwtral | 3 |

**40.** Awgrymodd Estyn fod y dystiolaeth ar ddiddordeb yn yr Adroddiad Interim yn dangos ei fod yn faich diangen ac yn gost y gellir ei hosgoi. Ailadroddodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy y farn hon, fel y gwnaeth Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, a awgrymodd yr ymddengys bod y gofyniad i lunio Adroddiad Interim yn defnyddio lefel anghymesur o adnoddau. Roedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn cytuno â'r cynnig, ar yr amod y gellir sicrhau bod digon o wybodaeth am berfformiad ar gael i ganiatáu penderfyniad gwybodus ynghylch a ddylid gofyn am Adroddiad Interim ai peidio.

**41.** Nododd yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru na allant "ragweld sefyllfa lle na fyddem yn darparu adroddiad ar gais".

**42.** Ni wnaeth dau ymateb unrhyw sylw. Awgrymodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan fod adroddiad unwaith y flwyddyn yn ymddangos yn rhesymol ac amlinellodd ddewisiadau amgen posibl fel adroddiad uchafbwyntiau.

## Cwestiwn 9

**Os felly, a ydych yn cytuno â'r dull a gymerwyd yn adran 16 o'r Bil Drafft?**

| Ymateb | Nifer |
|---|---|
| Ydw | 5 |
| Nac ydw | - |
| Niwtral | 3 |

**43.** O ran y cynigion perthnasol yn y Bil drafft, roedd pum ymateb yn cytuno â'r dull gweithredu. Tra bod y tri ymateb niwtral naill ai heb godi unrhyw fater neu wedi cyfeirio at eu hateb blaenorol yn yr adran hon.

Ni chynigir unrhyw newidiadau pellach i'r Bil drafft mewn perthynas ag adroddiadau interim.

# 6. Gosod adroddiadau a chyfrifon

**44.** Trafodir gosod adroddiad a chyfrifon blynyddol yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru ym Mhennod 7 o adroddiad y Pwyllgor, sef Trafodaeth o'r cynigion i ddiwygio Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013.

## Cynnig

Symleiddio'r darpariaethau yn Neddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 i alluogi:

- Archwilydd Cyffredinol Cymru a Chadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru i ddarparu eu hadroddiad blynyddol i archwilydd allanol Swyddfa Archwilio Cymru heb fod yn hwyrach na phum mis ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol; ac
- yn dilyn hynny, ei gwneud yn ofynnol i'r archwilydd allanol osod yr adroddiad wrth osod y cyfrifon blynyddol.

CWESTIYNAU'R YMGYNGHORIAD

### Cwestiwn 10

**A ydych yn cytuno y dylid newid y gofyniad i osod yr adroddiad blynyddol (ar arfer swyddogaethau Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru) ym mharagraff 3(1) o Atodlen 2 i Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 i'w gwneud yn ofynnol i'r archwilydd allanol osod yr adroddiad wrth osod yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon?**

| Ymateb | Nifer |
|---|---|
| Ydw | 5 |
| Nac ydw | - |
| Niwtral | 2 |

**45.** Roedd saith ymateb i Gwestiwn 10. Roedd pump yn gadarnhaol, ac er bod sylwadau'n gyfyngedig, soniodd yr ymatebion fod y cynnig yn osgoi dyblygu. Roedd y ddau ymateb arall yn niwtral a naill ai'n nodi nad oedd ganddynt unrhyw broblem gyda'r cynigion neu nad oeddent yn ymddangos yn "afresymol".

## Cwestiwn 11

**Os felly, a ydych yn cytuno â'r dull a gymerwyd yn adran 15 o'r Bil Drafft?**

| Ymateb | Nifer |
|---|---|
| Ydw | 5 |
| Nac ydw | - |
| Niwtral | 2 |

**46.** Roedd ymatebion i Gwestiwn 11 naill ai'n cytuno neu heb wneud unrhyw sylwadau ychwanegol i'r rheini yn yr ymatebion i Gwestiwn 10.

Ni chynigir unrhyw newidiadau pellach i'r Bil drafft mewn perthynas â gosod adroddiad a chyfrifon blynyddol yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru.

# 7. Terfynau amser o ran ardystio

**47.** Trafodir y gofyniad a roddir ar yr Archwilydd Cyffredinol i osod copi o gyfrifon ardystiedig rhai cyrff archwiliedig ac adrodd heb fod yn hwyrach na phedwar mis ar ôl iddynt gael eu cyflwyno ym Mhennod 8 o adroddiad y Pwyllgor, sef Trafodaeth o'r cynigion i ddiwygio Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013.

## Cynnig

Diwygio'r deddfiadau hynny sy'n nodi terfyn amser o bedwar mis i Archwilydd Cyffredinol Cymru ardystio a gosod copi o gyfrifon ac adroddiad corff archwiliedig:

- i ganiatáu i Archwilydd Cyffredinol Cymru osod copi o'r cyfrifon ardystiedig a'r adroddiad ar ôl y terfyn amser o bedwar mis;
- i'w gwneud yn ofynnol i Archwilydd Cyffredinol Cymru egluro i'r Senedd pam na ellir bodloni'r terfyn amser o bedwar mis; ac
- i'w gwneud yn ofynnol i Archwilydd Cyffredinol Cymru osod y cyfrifon ardystiedig a'r adroddiad cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

CWESTIYNAU'R YMGYNGHORIAD

### Cwestiwn 12

**A ydych yn cytuno y dylid diwygio'r ddeddfwriaeth bresennol sy'n ei gwneud yn ofynnol i Archwilydd Cyffredinol Cymru ardystio a gosod cyfrifon ac adroddiad corff a archwilir o fewn pedwar mis:**

- **i ganiatáu i Archwilydd Cyffredinol Cymru osod copi o'r cyfrifon ardystiedig a'r adroddiad ar ôl y terfyn amser o bedwar mis,**
- **i'w gwneud yn ofynnol i Archwilydd Cyffredinol Cymru egluro i'r Senedd pam na ellir bodloni'r terfyn amser o bedwar mis ac**
- **i'w gwneud yn ofynnol i Archwilydd Cyffredinol Cymru osod y cyfrifon ardystiedig a'r adroddiad cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol?**

| Ymateb | Nifer |
|---|---|
| Ydw | 5 |
| Nac ydw | 1 |
| Niwtral | 2 |

**48.** Awgrymodd Estyn fod y terfyn amser yn annhebygol o gael ei ymestyn. Nododd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr fod angen rhoi digon o amser i gyrff archwiliedig wneud sylwadau ar ganfyddiadau'r archwiliad. Eglurodd yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru mai gweithdrefn frys oedd y broses ddiwygiedig ac na fyddai'n cael ei defnyddio fel "esgus hawdd a pharod am oedi".

**49.** Ni chododd y ddau ymateb niwtral unrhyw fater neu gwnaethant nodi nad oeddent yn teimlo bod y cynnig yn afresymol.

**50.** Awgrymodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam nad oedd y wybodaeth y tu ôl i'r cynnig yn rheswm digon dilys dros ddiwygio'r targed o bedwar mis.

### Cwestiwn 13

**Os felly, a ydych yn cytuno â'r dull a gymerwyd yn adran 17 ac Atodlen 1 i'r Bil Drafft?**

| Ymateb | Nifer |
|---|---|
| Ydw | 5 |
| Nac ydw | - |
| Niwtral | 2 |

**51.** Ni roddodd y rhai a oedd yn cytuno â'r dull yn y Bil drafft sylwadau y tu hwnt i'r rhai a geir yn eu hymatebion i Gwestiwn 12.

**52.** Cytunodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam â'r drafftio arfaethedig o'r gwelliannau yn y Bil drafft er iddo anghytuno â'r cynnig yng Nghwestiwn 12.

**53.** Unwaith eto, ni chododd y ddau ymateb niwtral unrhyw fater neu gwnaethant nodi nad oeddent yn teimlo bod y cynnig yn afresymol.

Ni chynigir unrhyw newidiadau pellach i'r Bil drafft mewn perthynas â'r Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru yn gosod copïau o adroddiadau a chyfrifon ardystiedig rhai cyrff.

# 8. Penodi archwilwyr cyfrifon Swyddfa Archwilio Cymru

**54.** Trafodir y darpariaethau sy'n ymwneud â phenodi archwilwyr cyfrifon y Swyddfa Archwilio Cymru ym Mhennod 9 o adroddiad y Pwyllgor, sef Trafodaeth o'r cynigion i ddiwygio Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013.

## Cynnig

Diwygio Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 er mwyn caniatáu i Swyddfa Archwilio Cymru benodi ei harchwilwyr allanol, ar yr amod bod y Senedd yn cymeradwyo:

- y penodiad,
- telerau'r penodiad, ac
- y dull caffael.

CWESTIYNAU'R YMGYNGHORIAD

### Cwestiwn 14

**A ydych yn cytuno y dylai penodiad archwilydd Swyddfa Archwilio Cymru fod yn fater cytundebol rhwng Swyddfa Archwilio Cymru a'r archwilydd, ac y dylai'r penodiad (a'r telerau a'r amodau cysylltiedig) fod yn amodol ar gymeradwyaeth y Cynulliad?**

| Ymateb | Nifer |
|---|---|
| Ydw | 6 |
| Nac ydw | - |
| Niwtral | 1 |

**55.** Roedd chwech o'r saith ymateb yn gadarnhaol, gyda'r ymatebion yn nodi llai o gymhlethdod a mwy o effeithlonrwydd (Estyn a'r Archwilydd Cyffredinol/Swyddfa Archwilio Cymru). Roedd un ymateb yn niwtral ond nid oedd yn codi unrhyw faterion.

## Cwestiwn 15

**Os felly, a ydych yn cytuno â'r dull a gymerwyd yn adran 14 o'r Bil Drafft?**

| Ymateb | Nifer |
|---|---|
| Ydw | 5 |
| Nac ydw | - |
| Niwtral | 1 |

**56.** Ni ddarparwyd unrhyw wybodaeth ychwanegol y tu hwnt i'r ymatebion i Gwestiwn 14.

Ni chynigir unrhyw newidiadau pellach i'r Bil drafft mewn perthynas â phenodi archwilwyr cyfrifon Swyddfa Archwilio Cymru.

# 9. Penodi aelodau anweithredol a Chadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru

**57.** Trafodir y darpariaethau sy'n ymwneud â phenodi aelodau anweithredol a Chadeirydd y Swyddfa Archwilio Cymru ym Mhennod 9 o adroddiad y Pwyllgor, sef Trafodaeth o'r cynigion i ddiwygio Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013.

## Cynnig

Diwygio Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 i'w gwneud yn bosibl ymestyn penodiad aelod anweithredol am ail dymor o hyd at bedair blynedd, ar yr amod ei fod yn cyflawni ei ddyletswyddau'n dderbyniol.

### CWESTIYNAU'R YMGYNGHORIAD

**Cwestiwn 16**

**A ydych yn cytuno y dylid diwygio Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 i'w gwneud yn bosibl ymestyn penodiad aelod anweithredol sy'n gwasanaethu ar y Bwrdd am ail dymor o hyd at bedair blynedd, ar yr amod ei fod yn cyflawni ei ddyletswyddau'n dderbyniol?**

| Ymateb | Nifer |
|---|---|
| Ydw | 5 |
| Nac ydw | 1 |
| Niwtral | 1 |

**58.** Roedd pump o'r saith ymateb yn gadarnhaol, gyda'r ymatebion yn awgrymu y byddai'n darparu hyblygrwydd (Estyn) a bod y broses bresennol yn "ddianghenraid o feichus" (yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru). Awgrymodd eraill y byddai angen iddo fod ar sail perfformiad derbyniol (Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr) ac y dylid adolygu'r dull os oes gan ymgeiswyr allanol ddiddordeb sylweddol (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy).

**59.** Roedd Cyngor Celfyddydau Cymru yn anghytuno â'r cynnig, gan awgrymu bod teilyngdod mewn cael proses gystadleuol bob pedair blynedd. Byddai hyn yn sicrhau bod cyfansoddiad y panel yn parhau i fod yn ffres ac yn adlewyrchu Cymru amrywiol a bywiog.

**60.** Nid oedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn cytuno nac yn anghytuno â'r cynnig, ond awgrymodd y byddai angen arweiniad ynghylch pwy sy'n gorfod asesu perfformiad derbyniol ar gyfer aelodau'r Bwrdd.

### Cwestiwn 17

**Os felly, a ydych yn cytuno â'r dull a gymerwyd yn adran 7, adran 8 ac adran 9 o'r Bil Drafft?**

| Ymateb | Nifer |
|---|---|
| Ydw | 4 |
| Nac ydw | 1 |
| Niwtral | 1 |

**61.** Ailadroddodd yr holl ymatebwyr eu hymatebion i Gwestiwn 16.

**62.** Cafodd y Bil drafft wared ar y gofyniad yn Neddf 2013 bod penodiadau ar gyfer Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru "yn seiliedig ar gasgliadau cystadleuaeth deg ac agored". Roedd hyn er mwyn osgoi'r awgrym y gallai estyniadau statudol o'r penodiadau hynny gael eu "dal" gan y gofyniad hwnnw ac felly methu gweithredu'n effeithiol. Fodd bynnag, mae cyngor cyfreithiol dilynol wedi rhybuddio y gallai dileu darpariaethau sy'n gofyn am gystadleuaeth deg ac agored gael ei adolygu fel "cam yn ôl" o ran sefydlu Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru, a'i ystyried mewn goleuni negyddol er gwaethaf y bwriad polisi gwirioneddol.

**63.** Cafodd y Pwyllgor wybod na fyddai cadw'r gofyniad "cystadleuaeth deg ac agored" yn atal ymestyn penodiad aelod anweithredol sy'n gwasanaethu, ar y sail y byddai estyniad yn ymwneud â phenodiad presennol yn hytrach na bod yn benodiad newydd.

**Newid i'r Bil drafft:**

Nid yw adran 7(3) o'r Bil drafft bellach yn dileu'r gofyniad i benodiadau Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru fod yn "seiliedig ar gasgliad cystadleuaeth deg ac agored".

**64.** Mae'r Pwyllgor hefyd wedi cytuno i ddiwygio darpariaethau penodi Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru yn adran 7 o'r Bil drafft.

**Newid i'r Bil drafft:**

Mae adran 7 o'r Bil drafft wedi'i diwygio i:

- symleiddio’r gwaith drafftio er mwyn cael gwared ar y cyfyngiad ar nifer y penodiadau neu’r estyniadau (ond gan gadw’r terfyn 8 mlynedd ar yr amser mwyaf y gellir ei wasanaethu ar y bwrdd fel aelod anweithredol);
- cryfhau’r gwaharddiad ar allu’r Senedd i wneud penodiadau neu estyniadau a fyddai’n cael yr effaith o dorri’r rheol “hyd at 8 mlynedd a dim mwy na hynny”, drwy ddarparu “na ddylai” y Senedd dorri y gwaharddiad hwnnw yn lle “rhaid” peidio, a chred y Pwyllgor y byddai hyn yn gwneud unrhyw benodiadau o’r fath yn annilys yn lle anghyfreithlon.

# 10. Gofyniad i ymgynghori ar rai agweddau ar y broses benodi

**65.** Trafodir y gofyniad i ymgynghori ar rai agweddau ar y broses benodi ym Mhennod 9 o adroddiad y Pwyllgor, sef Trafodaeth o'r cynigion i ddiwygio Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013.

## Y cynigion

Dileu'r gofynion a osodir ar y Senedd i ymgynghori â'r Prif Weinidog ar y canlynol:

- penodi Cadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru *[paragraff 5(2) o Atodlen 1]*,
- y trefniadau o ran tâl cydnabyddiaeth y Cadeirydd *[paragraff 7(2) o Atodlen 1]* ac Archwilydd Cyffredinol Cymru *[adran 7(2)]*, a
- dod â phenodiad y Cadeirydd i ben *[paragraff 12(2) o Atodlen 1]*

er mwyn amddiffyn annibyniaeth y rolau hynny.

Dileu'r gofyniad i ymgynghori "â pherson priodol sydd â goruchwyliaeth dros benodiadau cyhoeddus" ynglŷn â threfniadau talu a thelerau eraill o ran penodi aelodau anweithredol Swyddfa Archwilio Cymru a'r Cadeirydd *[paragraff 9(1) o Atodlen 1]* a chyflwyno darpariaeth yn lle hynny sy'n caniatáu i'r Senedd ymgynghori ag unrhyw bersonau sy'n briodol yn ei farn.

Diwygio adran 5(3) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus 2013 i'w gwneud yn ofynnol i'r Senedd gyhoeddi rhestr o swyddi neu drefniadau cyfyngedig y byddai angen i gyn-Archwilydd Cyffredinol Cymru ymgynghori â'r Senedd yn eu cylch cyn eu derbyn neu ymrwymo iddynt ar ôl gadael y swydd, ond dim ond os bydd unrhyw gyfyngiadau o'r fath wedi'u nodi.

## CWESTIYNAU'R YMGYNGHORIAD

### Cwestiwn 18

**A ydych yn cytuno y dylid dileu'r gofyniad i'r Senedd ymgynghori â'r Prif Weinidog ynghylch y materion a ganlyn:**

- **penodi Cadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru;**
- **y trefniadau o ran tâl y Cadeirydd ac Archwilydd Cyffredinol Cymru; a**
- **dod â phenodiad y Cadeirydd i ben?**

| Ymateb | Nifer |
|---|---|
| Ydw | 5 |
| Nac ydw | 1 |
| Niwtral | 1 |

**66.** Awgrymodd Estyn fod y newidiadau'n cefnogi annibyniaeth y sefydliad. Awgrymodd yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru ei fod yn dileu'r risg o ganfyddiad bod corff archwiliedig yn cael dylanwad amhriodol ar y rhai sy'n gyfrifol am fonitro a chynghori ei archwilydd, yn ogystal â pheryglu tanseilio annibyniaeth yr Archwilydd Cyffredinol.

**67.** Nid oedd yr un ymateb niwtral yn codi unrhyw faterion. Fodd bynnag, awgrymodd yr un ymateb negyddol (Cyngor Celfyddydau Cymru) fod y darpariaethau presennol yn debyg i'r rhai mewn mannau eraill ac y dylid cynnal y status quo gyda threfniadau archwilio eraill ledled y DU. Er enghraifft, mae Deddf Cyfrifoldeb am Gyllidebau ac Archwilio Cenedlaethol 2011 yn mynnu; y dylai'r Prif Weinidog a'r unigolyn sy'n cadeirio'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus wneud trefniadau tâl ar y cyd cyn i berson gael ei benodi'n Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol, mewn perthynas â'r person hwnnw.

### Cwestiwn 19

**A ydych yn cytuno y dylid dileu'r gofyniad i'r Senedd ymgynghori â pherson priodol sydd â goruchwyliaeth dros benodiadau cyhoeddus ynglŷn â threfniadau talu cydnabyddiaeth a thelerau eraill sy'n ymwneud â phenodiad?**

| Ymateb | Nifer |
|---|---|
| Ydw | 4 |
| Nac ydw | 1 |
| Niwtral | 2 |

**68.** Awgrymodd y pedwar ymateb cadarnhaol nad oedd yn glir pwy oedd y darpariaethau presennol yn ymwneud â hwy (yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru) a bod y newid arfaethedig yn rhoi mwy o hyblygrwydd (Estyn).

**69.** Nid oedd yr ymatebion niwtral yn nodi unrhyw faterion. Fodd bynnag, cyfeiriodd yr ymateb negyddol (Cyngor Celfyddydau Cymru) at ei ymateb i Gwestiwn 18.

### Cwestiwn 20

**A ydych yn cytuno y dylid cynnwys darpariaeth gyffredinol sy'n caniatáu i'r Senedd ymgynghori ag unrhyw berson sy'n briodol yn ei farn cyn arfer unrhyw swyddogaethau mewn perthynas ag Archwilydd Cyffredinol Cymru neu Swyddfa Archwilio Cymru?**

| Ymateb | Nifer |
|---|---|
| Ydw | 6 |
| Nac ydw | - |
| Niwtral | 1 |

**70.** Nododd Estyn y byddai'r darpariaethau'n darparu mwy o hyblygrwydd.

**71.** Nid oedd yr ymateb niwtral yn codi unrhyw faterion.

### Cwestiwn 21

**Os felly, a ydych yn cytuno â'r dull a gymerwyd yn adran 6, adran 10 ac adran 11 o'r Bil drafft?**

| Ymateb | Nifer |
|---|---|
| Ydw | 4 |
| Nac ydw | 1 |
| Niwtral | 1 |

**72.** Ni roddodd yr ymatebion fanylion ychwanegol i'r hyn a gafwyd yn yr ymatebion i'r cwestiynau blaenorol yn yr adran hon.

## Cwestiwn 22

**A ydych yn cytuno y dylid diwygio adran 5(3) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus 2013 i'w gwneud yn ofynnol i'r Cynulliad gyhoeddi rhestr o swyddi neu drefniadau cyfyngedig y byddai angen i gyn-Archwilydd Cyffredinol Cymru ymgynghori â'r Cynulliad yn eu cylch cyn eu derbyn neu ymrwymo iddynt ar ôl gadael y swydd, ond dim ond os bydd unrhyw gyfyngiadau o'r fath wedi'u nodi?**

| Ymateb | Nifer |
|---|---|
| Ydw | 5 |
| Nac ydw | - |
| Niwtral | 2 |

**73.** Ni ddarparwyd unrhyw wybodaeth arwyddocaol ochr yn ochr â'r ymatebion.

## Cwestiwn 23

**Os felly, a ydych yn cytuno â'r dull a gymerwyd yn adran 5 o'r Bil Drafft?**

| Ymateb | Nifer |
|---|---|
| Ydw | 4 |
| Nac ydw | - |
| Niwtral | 2 |

**74.** Unwaith eto, ni ddarparwyd unrhyw wybodaeth arwyddocaol ochr yn ochr â'r ymatebion.

Ni chynigir unrhyw newidiadau pellach i'r Bil drafft mewn perthynas â'r gofyniad i ymgynghori ar rai agweddau ar y broses benodi.

# 11. Materion yn ymwneud â deddfwriaeth archwilio cyhoeddus ehangach yng Nghymru

**75.** Roedd Pennod 10 o adroddiad y Pwyllgor, sef Trafodaeth o'r cynigion i ddiwygio Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 yn amlinellu materion yn ymwneud â deddfwriaeth archwilio cyhoeddus ehangach yng Nghymru.

**Cwestiwn 24**

**A ydych yn teimlo y dylai'r Bil Drafft gynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â'r materion a ganlyn:**

- **y diffyg dyletswydd ar Archwilydd Cyffredinol Cymru i gyrraedd casgliad gwerth am arian mewn cyrff llywodraeth ganolog;**
- **absenoldeb darpariaeth eglur mewn statud ar gyfer barn rheoleidd-dra ymhlith llawer o gyrff y Llywodraeth ganolog;**
- **gofynion gosod sy'n gorgyffwrdd;**
- **pwerau paru data Cymru?**

| Ymateb | Nifer |
|---|---|
| Ydw | 4 |
| Nac ydw | 2 |
| Niwtral | 2 |

**76.** Awgrymodd pedwar ymateb y dylai'r Bil gynnwys un neu fwy o ddarpariaethau sy'n ymwneud â'r darpariaethau a nodir yng Ngwestiwn 24.

**77.** Awgrymodd yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru y dylid gweithredu pob maes, gan nodi, er bod rhywfaint o archwiliad achlysurol o werth am arian mewn cyrff lle nad oedd dyletswydd, nid oedd hyn mor drylwyr ag y gallai fod. Nodwyd hefyd fod absenoldeb darpariaeth benodol yn ymwneud â safbwyntiau rheoleidd-dra yn golygu bod "elfen sylfaenol o reolaeth y Cynulliad ar wariant llywodraeth ganolog ar goll o statud mewn perthynas â rhai cyrff". Awgrymwyd nad oedd gofynion gosod sy'n gorgyffwrdd "yn gymorth i sicrhau eglurder cyfrifoldeb" ac roedd pwerau paru data ar ei hôl hi.

**78.** Cytunodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam â'r cynigion, yn enwedig ymestyn pwerau paru data. Nododd ymatebion eraill ei fod yn ddarn o waith

sylweddol i ddatrys problemau sy'n ymwneud â gwerth am arian a rheoleidd-dra (Estyn).

**79.** Ymatebodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn niwtral, gan awgrymu nad oedd ganddo ddigon o dystiolaeth o gymharu paru data â chenhedloedd eraill y DU i ymateb i'r cwestiwn. Ni fynegodd Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru unrhyw wrthwynebiadau i farn rheoleidd-dra a gofynion gwerth am arian yn cael eu mewnosod mewn deddfwriaeth berthnasol.

**80.** Ymatebodd Cyngor Celfyddydau Cymru yn negyddol, gan awgrymu y byddai'n debygol o fod "yn gymhleth a llafurus" i newid ei Siarter Frenhinol. Awgrymodd hefyd y gallai fod problemau eraill gyda newid o'r fath a'i statws fel elusen. Ymatebodd Cyngor y Gweithlu Addysg yn negyddol hefyd gan wrthwynebu newid o'r fath ar sail statws y sefydliad.

**81.** Cytunodd y Pwyllgor o'r blaen na fyddai'n bwrw ymlaen â chynigion yn ymwneud â deddfwriaeth archwilio cyhoeddus ehangach ond y byddai'n derbyn tystiolaeth bellach ar y materion hynny fel rhan o'r ymgynghoriad hwn. Er bod y Pwyllgor yn nodi bod rhai ymgynghorwyr yn gefnogol i'r Bil yn cynnwys darpariaethau'n ymwneud â deddfwriaeth archwilio cyhoeddus ehangach yng Nghymru, ni chyflwynodd ymatebwyr unrhyw dystiolaeth newydd i gefnogi'r cynigion hyn.

# 12. Materion eraill

**82.** Fel rhan o'r ymarfer ymgynghori, ceisiodd y Pwyllgor farn ar oblygiadau ariannol y Bil drafft, yn ogystal ag unrhyw sylwadau cyffredinol.

**Cwestiwn 25**

**A fydd unrhyw rai o'r cynigion sydd wedi'u cynnwys yn y Bil Archwilio Cyhoeddus (Diwygio) (Cymru) Drafft yn arwain at unrhyw oblygiadau ariannol (er enghraifft, costau neu fanteision) i chi neu'ch sefydliad?**

**Os felly, a allwch ddisgrifio'r goblygiadau ariannol posibl i chi neu'ch sefydliad a rhoi amcangyfrif o'r gost (os yw'n bosibl i chi wneud hynny)?**

| Ymateb | Nifer |
|---|---|
| Ydw | - |
| Nac ydw | - |
| Niwtral | 7 |

**83.** Cafwyd saith ymateb i'r cwestiwn ynghylch goblygiadau ariannol y Bil drafft, a chafodd pob un ei ystyried yn 'niwtral' ar y sail nad ydynt yn mynegi barn gadarnhaol na negyddol ar y costau.

**84.** Yn gyffredinol, roedd yr ymatebion yn awgrymu y byddai'r costau'n ymylol (Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda) neu nad oeddent yn rhagweld unrhyw effaith (Estyn / Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr). Awgrymodd rhai ymatebion ei bod yn aneglur beth fyddai'r effaith (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam).

**85.** Awgrymodd Cyngor y Celfyddydau y gallai ffioedd gynyddu o bosibl pe bai gwrthbwyso rhwng cyrff yn cael ei gynnwys.

**86.** Fel rhan o'i ymateb, diweddarodd yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru yr asesiad cost a luniwyd ochr yn ochr â'u Bil drafft (Mehefin 2018), gan nodi bod defnyddio'r term swyddogaeth yn golygu y bydd "angen parhaus am ddadansoddiad manwl o'r amser a dreulir ar swyddogaethau penodol" ac y bydd hyn felly'n lleihau'r arbedion cost a amcangyfrifwyd yn wreiddiol. Awgrymwyd y gallai'r newid haneru'r arbedion o'r amcangyfrif gwreiddiol, i £10,000 - £20,000 y flwyddyn, ac awgrymwyd y byddai'r rhan fwyaf o'r arbediad amcangyfrifedig o £5,000 o fis Mehefin 2018 yn aros. Mae amcangyfrif y cyfraniad o wargedion ar waith cytundeb yn parhau i fod yn £7,500 y flwyddyn.

**87.** O ran Adroddiadau Interim, mae'r Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru yn nodi bod yr arbediad o £20,000 a briodolir i beidio â gorfod llunio'r adroddiad mwyach yn aros. Fodd bynnag, mewn blynyddoedd pan fydd y Pwyllgor yn gofyn am adroddiad o'r fath, ni fyddai'r arbediad yn cael ei wireddu.

**88.** Ni chafodd y newidiadau i'r trefniadau penodi ar gyfer archwilwyr Swyddfa Archwilio Cymru eu cynnwys yng nghynigion Bil drafft Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'n amcangyfrif y gallai cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud ag archwilwyr Swyddfa Archwilio Cymru, fel y nodwyd yn yr ymgynghoriad, arwain at arbedion o "£2,000 o leiaf" ar gyfer pob penodiad.

**89.** Mae'r Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru hefyd yn amcangyfrif y gallai fod arbedion yn deillio o newidiadau yn y trefniadau penodi ar gyfer aelodau anweithredol a Chadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru, ond ei bod yn "anodd mesur yr arbedion hyn, gan ei bod yn anochel y caiff amser ei dreulio hefyd ar drafod yn gyffredinol ynghylch yr angen i lenwi swyddi gwag".

**90.** Mae'r Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru yn awgrymu y bydd y gallu i osod cyfrifon ar ôl terfyn amser o bedwar mis yn arbed £4,000 bob tro ac mae wedi tybio y gallai hyn ddigwydd unwaith bob wyth mlynedd.

**91.** Mae'r Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru yn amcangyfrif costau gweithredu o "lai na £1,000 fwy na thebyg".

## Cwestiwn 26

**A oes gennych unrhyw beth arall i'w nodi neu unrhyw sylwadau cyffredinol eraill o ran Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 neu Fil Archwilio Cyhoeddus (Diwygio) (Cymru) Drafft y Pwyllgor?**

**92.** Ar wahân i rai sylwadau ar y derminoleg yn y ddeddfwriaeth gan yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru, ni wnaeth y rhai a ymatebodd i'r cwestiwn hwn unrhyw sylwadau eraill.

# 13. Materion pellach a nodwyd

## Anghymhwyso fel aelod, neu gyflogai, Swyddfa Archwilio Cymru

### Y darpariaethau presennol

**93.** Mae paragraff 26 o Atodlen 1 i Ddeddf 2013 yn nodi'r seiliau lle na ellir penodi (neu barhau i benodi) person yn aelod neu'n gyflogai i Swyddfa Archwilio Cymru.

**94.** Mae'r meini prawf anghymhwyso a restrir ym mharagraff 26(3) yn cynnwys y canlynol:

> "Mae person wedi ei anghymhwyso rhag bod yn aelod o SAC neu'n gyflogai iddi os yw'r person…yn dal unrhyw swydd arall y caniateir i berson gael ei benodi iddi, neu ei argymell ar ei chyfer neu ei enwebu ar ei chyfer, gan neu ar ran…y Goron."

### Mater

**95.** Wrth recriwtio i Fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru, mae angen ystyried ymrwymiadau presennol ymgeiswyr ochr yn ochr â'r darpariaethau anghymhwyso yn Neddf 2013. Weithiau mae hyn wedi arwain at ystyried bod ymgeiswyr yn anghymwys i'w penodi, yn benodol mewn perthynas â phenodiadau a wneir gan y Goron, neu ar ran y Goron.

**96.** Mae'r Pwyllgor wedi derbyn cyngor cyfreithiol fel a ganlyn:

- mae'r "Goron" yn gysyniad hanesyddol ac mae ei hystyr mewn deddfwriaeth fodern yn dibynnu ar y cyd-destun y mae'n cael ei defnyddio ynddo,
- yn gyffredinol, wrth gyfeirio at lywodraeth weithredol mae cyfeiriad at y Goron yn cynnwys Llywodraeth y DU, a gall gynnwys y gweinyddiaethau datganoledig,
- effaith y ddarpariaeth hon yw bod dal swydd y penodir person iddi gan Lywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru, ac o bosibl gan weinyddiaethau datganoledig yr Alban a Gogledd Iwerddon, yn anghymhwyso'r person hwnnw rhag bod yn aelod o Swyddfa Archwilio Cymru.

**97.** Mae'r Pwyllgor yn pryderu y gallai'r ddarpariaeth anghymhwyso effeithio ar allu'r Senedd i ddenu ymgeiswyr o ansawdd uchel i wasanaethu ar Fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru, o ystyried y gall maint y ddarpariaeth anghymhwyso

fod yn ehangach na'r angen i amddiffyn annibyniaeth Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru.

**98.** Fodd bynnag, yn sgil y cymhlethdodau a'r amser cyfyngedig sy'n weddill yn y Pumed Senedd, mae'r Pwyllgor yn awgrymu y dylai'r mater hwn gael ei ystyried ymhellach gan bwyllgor o'r Chweched Senedd yn y dyfodol.

**Argymhelliad 2.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod pwyllgor yn y dyfodol yn y Chweched Senedd yn ystyried y darpariaethau anghymhwyso mewn perthynas â'r Goron (paragraff 26 o Atodlen 1 i Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013) fel rhan o unrhyw waith yn y dyfodol ar y Bil Archwilio Cyhoeddus (Diwygio) (Cymru).

## Treuliau Archwilydd Cyffredinol Cymru

### Y darpariaethau presennol

**99.** Mae adran 7 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus Cymru 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Senedd wneud trefniadau ar gyfer talu cydnabyddiaeth Archwilydd Cyffredinol cyn i unigolyn gael ei benodi. Mae'n caniatáu talu "cyflog, lwfansau, arian rhodd, trefniadau ar gyfer pensiwn a buddion eraill", ac yn ei gwneud yn ofynnol i'r symiau hyn gael eu hysgwyddo gan Gronfa Gyfunol Cymru a'u talu o'r Gronfa honno. Comisiwn y Senedd sy'n gweinyddu'r trefniadau hyn.

**100.** Ar wahân, mae paragraff 13 Atodlen 1 Deddf 2013 yn darparu y "caiff SAC wneud darpariaeth i daliadau ychwanegol gael eu gwneud i'r Archwilydd Cyffredinol drwy lwfansau a buddion eraill i dalu treuliau yr aed iddynt yn briodol ac o anghenraid gan yr Archwilydd Cyffredinol yn rhinwedd ei swydd fel aelod o SAC a phrif weithredwr arni".

### Mater

**101.** Ar 7 Chwefror, cododd Swyddfa Archwilio Cymru fater ynglŷn â nodi treuliau a dalwyd i'r Archwilydd Cyffredinol yn rhinwedd ei swydd fel Archwilydd Cyffredinol ac, ar wahân i hynny, fel Prif Weithredwr Swyddfa Archwilio Cymru.[4]

**102.** Hyd yma, mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi talu holl dreuliau teithio a chynhaliaeth yr Archwilydd Cyffredinol o'i chyllideb flynyddol heb unrhyw dâl uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru. Mae Swyddfa Archwilio Cymru o'r farn nad yw darpariaethau Deddf 2013 yn glir ac, at hynny, nad yw'n ymarferol nac yn gysyniadol gadarn i geisio gwahanu treuliau'r Archwilydd Cyffredinol rhwng y rhai

[4] Llythyr gan Swyddfa Archwilio Cymru, 7 Chwefror 2020

a ysgwyddir gan yr Archwilydd Cyffredinol a'r rhai a ysgwyddir ar wahân fel Prif Weithredwr.

**103.** Gwahoddodd Swyddfa Archwilio Cymru y Pwyllgor i ystyried a ddylid diwygio adran 7 a pharagraff 13 o Atodlen 1 i Ddeddf 2013 i'w gwneud yn gliriach, ond nododd nad yw Swyddfa Archwilio Cymru o'r farn bod y mater yn flaenoriaeth uchel, "ar yr amod fod y Pwyllgor yn fodlon ar y dehongliad a'r dull a fabwysiedir gan Swyddfa Archwilio Cymru".

**104.** Ar ôl myfyrio ar ddull presennol Swyddfa Archwilio Cymru a cheisio cyngor cyfreithiol, ysgrifennodd y Pwyllgor at Swyddfa Archwilio Cymru yn nodi ei safbwynt:

> "Felly, ym marn y Pwyllgor, dim ond i'r graddau y gellir priodoli'r treuliau i swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol fel aelod a phrif weithredwr Swyddfa Archwilio Cymru y mae arfer Swyddfa Archwilio Cymru wrth dalu holl dreuliau'r Archwilydd Cyffredinol yn cydymffurfio â gofynion Deddf 2013. Os yw unrhyw dreuliau o'r fath yn ymwneud (boed yn gyfan gwbl neu'n rhannol) â swyddogaethau nad ydynt i'r Archwilydd Cyffredinol fel aelod neu brif weithredwr, ni fyddai taliadau o'r fath yn cydymffurfio â gofynion Deddf 2013 a gall arwain at broblemau o ran anghysondebau."[5]

**105.** Mae'r Pwyllgor wedi gwahodd y Swyddfa Archwilio Cymru i fyfyrio ar ei arfer cyfredol o dalu treuliau i'r Archwilydd Cyffredinol ac ystyried y sefyllfa gyda'i harchwilwyr, os oes angen. Mae'r Pwyllgor o'r farn bod angen ystyried y mater hwn ymhellach.

**Argymhelliad 3.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod pwyllgor yn y dyfodol yn y Chweched Senedd yn ystyried y darpariaethau sy'n ymwneud â thalu treuliau'r Archwilydd Cyffredinol (adran 7 a pharagraff 13 o Atodlen 1 i Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013) fel rhan o unrhyw waith yn y dyfodol ar y Bil Archwilio Cyhoeddus (Diwygio) (Cymru).

[5] Llythyr at Swyddfa Archwilio Cymru, 2 Chwefror 2021

# 14. Newidiadau drafftio eraill

Mae Rhan 2 o Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 wedi ailenwi Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Deddfau'r Cynulliad a chyrff a swyddfeydd cysylltiedig amrywiol, ers 6 Mai 2020. Digwyddodd y newidiadau hyn yn dilyn ymgynghoriad y Pwyllgor ar y Bil drafft.

Mae pob cyfeiriad yn y Bil at Gynulliad Cenedlaethol Cymru wedi'i ddiweddaru i Senedd Cymru er mwyn adlewyrchu newid enw'r sefydliad.

At hynny, mae'r Pwyllgor wedi mewnosod adran 18 ac Atodlen 2 newydd i'r Bil er mwyn i rai cyfeiriadau at enwau blaenorol Senedd Cymru a Chomisiwn y Senedd[6] yn Neddf 2013, ac mewn deddfwriaeth arall a gynigir i'w diwygio gan Atodlen 1 i'r Bil, gael eu diweddaru pan fo'n briodol. Er nad yw diweddariadau penodol yn ofynnol, mae'r Pwyllgor yn ystyried y bydd y newidiadau hyn yn gwella hygyrchedd y ddeddfwriaeth honno.

Mae'r Pwyllgor hefyd wedi diwygio Atodlenni 3 a 4 y Bil drafft, sy'n ymdrin â diwygiadau canlyniadol a threfniadau pontio, i wella a symleiddio'r gwaith drafftio. Nid oes unrhyw newidiadau polisi yn codi o'r gwelliannau hyn.

[6] O dan adran 150A(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, dylid darllen cyfeiriadau mewn deddfwriaeth bresennol at Gynulliad Cenedlaethol Cymru, Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru neu Ddeddfau Cynulliad Cenedlaethol Cymru fel, neu'n cynnwys, yr enwau perthnasol a roddir gan Ran 2 Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020.

# Atodiad A: Y Bil Archwilio Cyhoeddus (Diwygio) (Cymru) drafft (ôl-ymgynghori)



# Bil Archwilio Cyhoeddus (Diwygio) (Cymru)

[~~DRAFT~~ÔL-YMGYNGHORI]

CYNNWYS

**RHAN 1**

CYFLYNIAD

1 Trosolwg

**RHAN 2**

DIWYGIADAU I DDEDDF ARCHWILIO CYHOEDDUS (CYMRU) 2013

2 Ffioedd am ddarparu gwasanaethau
3 Darpariaeth gyffredinol yn ymwneud â ffioedd
4 Cynllun ar gyfer codi ffioedd
5 Cyflogaeth etc~~.~~ cyn-Archwilydd Cyffredinol a thalu cydnabyddiaeth
6 Gofynion ymgynghori
7 Penodi ~~Aelodau~~aelodau anweithredol SAC
8 Penodi cadeirydd ar SAC
9 Cyfnod penodi ac ailbenodi
10 Trefniadau talu cydnabyddiaeth ar gyfer SAC
11 Telerau penodi
12 Dod â phenodiadau i ben
13 Cworwm ar gyfer cyfarfodydd SAC
14 Cyfrifon SAC ac archwilwyr SAC
15 Gosod adroddiadau etc~~.~~ gerbron y ~~Cynulliad Cenedlaethol~~Senedd
16 Adroddiadau interim

**RHAN 3**

CYFFREDINOL

17 Terfynau amser ar gyfer gosod cyfrifon ardystiedig
18 Darpariaethau ailenwi
~~18~~19 Diwygiadau canlyniadol
~~19~~20 Trefniadau trosiannol
~~20~~21 ~~Teitl~~Enw byr a dod i rym

Atodlen 1 — Terfynau amser ar gyfer gosod ac adrodd ar y cyfrifon
Atodlen 2 — Darpariaethau ailenwi
Atodlen 3 — Diwygiadau canlyniadol

Atodlen ~~3~~4 — Trefniadau trosiannol

# Bil Archwilio Cyhoeddus (Diwygio) (Cymru)

[~~DRAFT~~ÔL-YMGYNGHORI]

Deddf ~~Cynulliad Cenedlaethol~~Senedd Cymru i ddiwygio Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 (dccc 3) mewn perthynas ag Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru ac at ddibenion cysylltiedig.

**Gan ei fod wedi ei basio gan ~~Gynulliad Cenedlaethol~~Senedd Cymru ac wedi derbyn cydsyniad Ei Mawrhydi, deddfir fel a ganlyn:**

## RHAN 1

## CYFLYNIAD

### 1 Trosolwg

Mae prif ddarpariaethau'r Ddeddf hon yn diwygio Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 (dccc 3) ("Deddf 2013") i—

(a) dileu'r gwaharddiad cyffredinol ar Swyddfa Archwilio Cymru ("SAC") rhag codi ffioedd sy'n fwy na chost lawn arfer y swyddogaeth y mae'r ffi'n ymwneud â hi (~~adran~~adrannau 2 a 3);

(b) ei gwneud yn ofynnol i SAC gynnwys darpariaeth mewn cynllun ffioedd ~~ddarpariaeth~~ sy'n ceisio sicrhau bod swm y ffioedd a godir ~~am yr holl waith~~ar bob person am swyddogaethau a ~~wneir~~arferir o dan ddeddfiadau penodedig, o'u cymryd gyda'i gilydd a chymryd un flwyddyn gydag un arall, yn cyfateb yn fras i'w holl ~~wariant~~gostau mewn ~~cysylltiad â'r~~perthynas â'r person hwnnw ~~am~~o ran y ~~gwaith hwnnw (adrannau 3 a~~swyddogaethau hynny (ac eithrio unrhyw gostau a ad-delir o ffynonellau eraill) (adran 4);

(c) ei gwneud yn ofynnol ~~i'r Cynulliad Cenedlaethol~~i Senedd Cymru (y "Senedd") gyhoeddi rhestr o swyddi, cytundebau a threfniadau eraill y ~~mae angen~~mae'n ofynnol ymgynghori arnynt cyn i gyn-Archwilydd Cyffredinol eu ~~cychwyn~~cymryd neu ymrwymo iddynt dim ond pan fo'r ~~Cynulliad Cenedlaethol~~Senedd wedi nodi unrhyw swydd, ~~unrhyw gytundeb~~cytundeb neu ~~unrhyw~~ drefniant (adran 5);

(d) dileu neu ddiwygio gofynion ymgynghori mewn perthynas â phenodi'r Archwilydd Cyffredinol ac aelodau SAC (gan gynnwys y cadeirydd) ac ychwanegu disgresiwn i'r ~~Cynulliad Cenedlaethol~~Senedd ymgynghori â phersonau y ~~mae o'r farn~~mae'n barnu eu bod yn briodol cyn arfer swyddogaethau mewn perthynas â'r Archwilydd Cyffredinol neu SAC (adran 6);

(e) gwneud darpariaeth sy'n ymwneud â phenodi aelodau SAC(gan gynnwys y cadeirydd), eu hailbenodi a dod â'u penodiad i ben, yn ogystal â thalu cydnabyddiaeth iddynt a'u telerau penodi (adrannau 7 i 12);

(f) (diwygio'r gofynion cworwm mewn perthynas â chyfarfodydd SAC (adran 13);

(g) gwneud darpariaeth sy'n ymwneud â phenodi archwilwyr SAC fel ei bod yn ofynnol i SAC, yn hytrach na'r ~~Cynulliad Cenedlaethol~~Senedd, benodi ei harchwilwyr (adran 14);

(h) cydgysylltu'r gwaith o osod yr adroddiad blynyddol ar arfer swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol a SAC â'r gwaith o osod cyfrifon archwiliedig SAC (adran 15);

(i) dileu'r gofyniad i'r Archwilydd Cyffredinol a chadeirydd SAC baratoi a gosod adroddiadau interim ar y cyd gerbron y ~~Cynulliad Cenedlaethol~~Senedd ar arfer eu swyddogaethau (adran 16);

(j) gwneud darpariaeth ar gyfer estyn y terfynau amser ar gyfer gosod adroddiadau (adran 17 ac Atodlen 1);

(k) gwneud diwygiadau i Ddeddf 2013 i ddiweddaru cyfeiriadau at enw'r Senedd (adran 18 ac Atodlen 2).

## RHAN 2

## DIWYGIADAU I DDEDDF ARCHWILIO CYHOEDDUS (CYMRU) 2013

### 2 Ffioedd am ddarparu gwasanaethau

(1) Mae adran 19 o Ddeddf 2013 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn is-adran (5)(a), ar ôl "Archwilydd Cyffredinol neu SAC" mewnosoder "(~~heblaw codi~~ac eithrio wrth godi arian ~~trwy~~drwy godi ffioedd)".

(3) Ar ôl is-adran (6) mewnosoder—

"(6A) Caiff SAC godi ffi mewn perthynas ag unrhyw wasanaethau sy'n cael eu darparu neu swyddogaethau sy'n cael eu harfer o dan yr adran hon."

(4) Yn is-adran (7), hepgorer ", gan gynnwys telerau ynghylch tâl,".

(5) Hepgorer is-adran (8).

### 3 Darpariaeth gyffredinol yn ymwneud â ffioedd

(1) Mae adran 23 o Ddeddf 2013 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn is-adran (3), hepgorer paragraff (d).

(3) Yn is-adran (5), ~~yn lle~~hepgorer paragraff (b).~~ rhodder—~~

~~"(b) caniateir iddynt gael eu hagregu a'u codi ar sail cyfwerthedd eang (gweler is-adran (6))".~~

~~(4) Ar ôl is-adran (5) mewnosoder—~~

~~"(6) Yn y Ddeddf hon, ystyr cyfwerthedd eang yw bod yn rhaid i SAC geisio sicrhau bod swm y ffioedd a godir o dan yr adran hon am unrhyw swyddogaethau a arferir mewn perthynas â pherson o dan y deddfiadau a grybwyllir yn adran 24(2)(a), o'u cymryd gyda'i gilydd a chymryd un flwyddyn gydag un arall, yn cyfateb yn fras i'w holl wariant y gellir ei briodoli i'r person hwnnw mewn cysylltiad â'r swyddogaethau hynny."~~

**4 Cynllun ar gyfer codi ffioedd**

(1) Mae adran 24 o Ddeddf 2013 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn is-adran (2)(a), ar y diwedd mewnosoder "ac na chaniateir ei chodi ond yn unol â'r cynllun hwn".

(3) Ar ôl is-adran (2)(d) mewnosoder—

"(e) darpariaeth bod yn rhaid i SAC godi ffioedd ar sail cyfwerthedd eang."

(4) Ar ôl is-adran (8) mewnosoder—

"(9) Yn y Ddeddf hon, ystyr cyfwerthedd eang yw bod yn rhaid i SAC geisio sicrhau bod swm y ffioedd a godir am unrhyw swyddogaethau a arferir mewn perthynas â pherson o dan y deddfiadau y cyfeirir atynt yn is-adran (2)(a), o'u cymryd gyda'i gilydd a chymryd un flwyddyn gydag un arall, yn cyfateb yn fras i'w holl gostau uniongyrchol ac anuniongyrchol y gellir eu priodoli i'r person hwnnw mewn cysylltiad â'r swyddogaethau hynny.

(10) Ond wrth gyfrifo costau y gellir eu priodoli i berson at ddibenion is-adran (9), ni chaiff SAC gynnwys unrhyw gostau sy'n cael eu had-dalu o ffynonellau eraill (gan gynnwys o Gronfa Gyfunol Cymru)."

**5 Cyflogaeth etc. cyn-Archwilydd Cyffredinol a thalu cydnabyddiaeth**

(1) Mae Deddf 2013 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn adran 5(3)—

(a) ym mharagraff (a), ar y diwedd mewnosoder "(os oes swyddi felly)";

(b) ym mharagraff (b), ar y diwedd mewnosoder "(os oes cytundebau a threfniadau felly)";

(3) Yn adran 7(3)(b) hepgorer "o dro i dro".

**6 Gofynion ymgynghori**

(1) Mae Deddf 2013 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn adran 7, hepgorer is-adran (2).

(3) Yn adran 28, ar ôl is-adran (3) mewnosoder—

“(4) Caiff y ~~Cynulliad Cenedlaethol~~Senedd ymgynghori â’r personau (os oes ~~rhai~~personau) y ~~mae o’r farn~~mae’n barnu eu bod yn briodol cyn arfer unrhyw swyddogaethau mewn perthynas â’r Archwilydd Cyffredinol neu SAC.”

(4) Yn Atodlen 1—

(a) ym mharagraff 5, hepgorer is-baragraff (2);

(b) ym mharagraff 7, hepgorer is-baragraff (2);

(c) hepgorer paragraff 9;

(d) ym mharagraff 12, hepgorer is-baragraff (2).

**7 Penodi ~~Aelodau~~aelodau anweithredol SAC**

(1) Mae paragraff 4 o Atodlen 1 i Ddeddf 2013 wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn is-baragraff (1), ar y diwedd mewnosoder “am gyfnod o hyd at 4 blynedd a dim mwy na hynny”.

(3) ~~Yn lle~~Ar ôl is-baragraff (2) ~~rhodder~~mewnosoder—

“~~Rhaid i benodiadau a wneir o dan is-baragraff (1) fod am gyfnod o ddim mwy na 4 blynedd.~~

~~(3) Ni chaniateir penodi person o dan is-baragraff (1) fwy na dwywaith.~~ ~~(2)~~

(~~4~~3) Caiff y ~~Cynulliad Cenedlaethol~~Senedd estyn penodiad a wneir o dan is-baragraff (1) am gyfnod o ~~ddim mwy na~~hyd at 4 blynedd a dim mwy na hynny.

~~(5) Ond ni chaniateir i’r Cynulliad Cenedlaethol estyn penodiad o dan is-baragraff (4) os yw’r aelod anweithredol hwnnw—~~

~~(a) wedi’i benodi o dan is-baragraff (1) fwy nag unwaith, neu~~

~~(b) wedi cael estyniad i’w benodiad o dan is-baragraff (4) o’r blaen.~~

(~~6~~4) ~~Ni chaniateir i’r Cynulliad Cenedlaethol~~Ond ni chaiff y Senedd wneud penodiad o dan is-baragraff (1) nac estyn penodiad ~~a wneir~~ o dan is-baragraff (~~1~~3) ~~neu (4)~~ os ~~byddai hynny’n~~byddai’r penodiad neu’r estyniad hwnnw (yn ôl fel y digwydd) yn arwain at ~~berson~~aelod anweithredol yn gwasanaethu am ~~fwy~~gyfnod hwy nag 8 mlynedd (boed yn olynol neu fel arall).”

**8 Penodi cadeirydd ar SAC**

(1) Mae paragraff 5 o Atodlen 1 i Ddeddf 2013 wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn lle is-~~baragraff~~baragraffau (3) a (4) rhodder—

“(3) Caiff y ~~Cynulliad Cenedlaethol~~Senedd estyn penodiad o dan y paragraff hwn.

(4) Ni chaniateir i’r cyfnod penodi o dan y paragraff hwn (gan gynnwys unrhyw estyniad iddo) fod yn fwy na’r cyfnod sy’n weddill gan y

person yn y swydd fel aelod anweithredol."

**9 Cyfnod penodi ac ailbenodi**

Yn Atodlen 1 i Ddeddf 2013, hepgorer paragraff 6.

**10 Trefniadau talu cydnabyddiaeth ar gyfer SAC**

(1) Mae Deddf 2013 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff 7 o Atodlen 1—

(a) yn is-baragraff (1), hepgorer "(yn ddarostyngedig i is-baragraff (2) a pharagraff 9)";

(b) yn is-baragraff (6)(b), hepgorer "o dro i dro";

(c) ar ôl is-baragraff (7) mewnosoder—

"(8) Caiff y ~~Cynulliad Cenedlaethol~~Senedd ddiwygio trefniadau talu cydnabyddiaeth a wneir o dan y paragraff hwn."

(3) ~~yn~~Yn is-baragraff 17(2)(b) o Atodlen 1, hepgorer "o dro i dro".

(4) ~~yn~~Yn is-baragraff 11(b) o Atodlen 2, hepgorer "o dro i dro".

**11 Telerau penodi**

(1) Mae paragraff 8 o Atodlen 1 i Ddeddf 2013 wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn is-baragraff (1), hepgorer "(yn ddarostyngedig i baragraff 9)".

(3) Ar ôl is-baragraff (3) mewnosoder—

"(4) Caiff y ~~Cynulliad Cenedlaethol~~Senedd ddiwygio telerau penodi a bennir o dan y paragraff hwn."

**12 Dod â phenodiadau i ben**

(1) Mae Atodlen 1 i Ddeddf 2013 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff 10(3), yn lle "cael ei dderbyn" rhodder "dod i law".

(3) Ym mharagraff 12(3)(b), hepgorer "fel arall yn anfodlon cyflawni swyddogaethau bod yn gadeirydd SAC" a mewnosoder "yn methu â chyflawni swyddogaethau bod yn gadeirydd SAC fel arall, yn anaddas i'w cyflawni fel arall, neu'n anfodlon eu cyflawni fel arall".

**13 Cworwm ar gyfer cyfarfodydd SAC**

(1) Mae paragraff 28 o Atodlen 1 i Ddeddf 2013 wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Ar ôl is-baragraff (3), mewnosoder—

"(4) ~~Caiff~~Ond caiff y rheolau ddarparu~~, os~~ nad yw ~~mwyafrif yr aelodau sy'n bresennol yn aelodau anweithredol, y caiff y cadeirydd ofyn i'r~~ aelodau sy'n gyflogeion ~~enwebu aelod sy'n gyflogai a fydd yn ymgymryd â rôl arsylwr am weddill~~ac sy'n bresennol mewn cyfarfod ~~neu hyd nes bod~~ond nad ydynt yn pleidleisio yn cyfrif fel rhai sy'n bresennol at ddiben y cworwm~~ yn cael ei adfer pan fydd aelod~~

~~anweithredol ychwanegol yn cyrraedd~~.”

**14 Cyfrifon SAC ac archwilwyr SAC**

(1) Mae Atodlen 1 i Ddeddf 2013 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) ~~Yn is-baragraff~~Ym mharagraff 33(6), hepgorer “o bryd i’w gilydd”.

(3) Ym mharagraff 34, yn lle is-baragraff (1) a (2) rhodder—

“(1) Rhaid i SAC benodi person yn archwilydd cyfrifon SAC.~~”~~

(2) Mae cymeradwyaeth y ~~Cynulliad Cenedlaethol~~Senedd yn ofynnol ar gyfer—

(a) penodi person yn archwilydd,

(b) telerau penodi’r archwilydd, ac

(c) y dull o gaffael archwilydd gan SAC.”

**15 Gosod adroddiadau etc~~.~~ gerbron y ~~Cynulliad Cenedlaethol~~Senedd**

(1) Mae Deddf 2013 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff 35(2)(b) o Atodlen 1, ar ôl “adroddiad arno” mewnosoder “a’r adroddiad blynyddol a ddarperir gan yr Archwilydd Cyffredinol a chadeirydd SAC yn unol â pharagraff 3 o Atodlen 2”.

(3) Ym mharagraff 3(6) o Atodlen 2, yn lle is-baragraff (a) rhodder—

“(a) darparu’r adroddiad blynyddol cyn gynted ag y bo’n ymarferol i’r archwilydd a benodir o dan baragraff 34 o Atodlen 1 a beth bynnag yw’r sefyllfa heb fod yn hwyrach na 5 mis ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol y mae’r adroddiad blynyddol yn ymwneud â hi;”

**16 Adroddiadau interim**

(1) Mae paragraff 3 o Atodlen 2 i Ddeddf 2013 wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn is-baragraff (3), yn lle “O leiaf unwaith yn ystod pob blwyddyn ariannol” rhodder “Os gofynnir amdano gan y ~~Cynulliad Cenedlaethol~~Senedd ar unrhyw adeg yn ystod blwyddyn ariannol”.

(3) Hepgorer is-baragraff (5).

(4) Yn is-adran (6)(b), ar ôl “gosod” mewnosoder “unrhyw”.

(5) Yn is-baragraff (6)(b), hepgorer “o bryd i’w gilydd”.

## RHAN 3

## CYFFREDINOL

**17 Terfynau amser ar gyfer gosod cyfrifon ardystiedig**

Mae Atodlen 1 yn gwneud diwygiadau ~~i’r~~i ddeddfwriaeth bresennol sy’n ymwneud â gosod cyfrifon ardystiedig ac adroddiadau.

**18 Darpariaethau ailenwi**

(1) Mae Deddf 2013 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn adran 32 (Dehongli)—

(a) hepgorer y diffiniadau o "Cynulliad Cenedlaethol", "Comisiwn y Cynulliad Cenedlaethol" a "Llywodraeth Cymru"; a

(b) yn y man priodol, mewnosoder "ystyr "*Senedd*" yw Senedd Cymru;".

(3) Mae Atodlen 2 yn gwneud diwygiadau i Ddeddf 2013 sy'n ymwneud ag enwau blaenorol y Senedd a Chomisiwn y Senedd.

**~~18~~19 Diwygiadau canlyniadol**

Mae Atodlen ~~2~~3 yn gwneud diwygiadau canlyniadol.

**~~19~~20 Trefniadau trosiannol**

(1) Mae Atodlen ~~3~~4 yn gwneud trefniadau trosiannol.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru drwy orchymyn wneud unrhyw ddarpariaeth drosiannol, darpariaeth ddarfodol neu ddarpariaeth arbed sy'n briodol yn eu barn hwy mewn cysylltiad â chychwyn y Ddeddf hon.

(3) Mae pŵer Gweinidogion Cymru i wneud gorchymyn o dan y Ddeddf hon yn arferadwy drwy offeryn statudol.

(4) Mae offeryn statudol sy'n cynnwys gorchymyn o dan y Ddeddf hon yn ddarostyngedig i'w ddiddymu yn unol â phenderfyniad y ~~Cynulliad Cenedlaethol~~Senedd.

(5) Nid oes dim yn Atodlen ~~3~~4 yn cyfyngu ar y pŵer a roddir gan is-adran (2); a chaiff gorchymyn o'r fath, ymysg pethau eraill, wneud addasiadau i'r Atodlen honno.

**~~20~~21 ~~Teitl~~Enw byr a dod i rym**

(1) Daw'r Ddeddf hon i rym ar ddiwedd y cyfnod o [ddau fis] gan ddechrau â'r diwrnod y ~~caiff~~bydd y Ddeddf hon yn cael y Cydsyniad Brenhinol.

(2) Enw byr y Ddeddf hon yw Deddf Archwilio Cyhoeddus (Diwygio) (Cymru) 202[ ].

## ATODLEN 1
*(a gyflwynir gan adran 17)*

## TERFYNAU AMSER AR GYFER GOSOD AC ADRODD AR Y CYFRIFON

*Comisiynydd Plant Cymru*

1 Mae paragraff 9 o Atodlen 2 i Ddeddf Safonau Gofal 2000 (p.14) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

2 ~~Ar ddechrau~~Yn is-baragraff (2)(b)~~,~~—

(a) ar y dechrau mewnosoder "(subject to sub-paragraph (2A))"~~.~~;

(b) yn lle "the Assembly" rhodder "Senedd Cymru".

3 Ar ôl is-baragraff (2), mewnosoder—

"(2A) The Auditor General for Wales may lay a copy of the certified accounts and report before ~~the Assembly~~Senedd Cymru after the four-month deadline mentioned in sub-paragraph (2)(b) where it is not reasonably practicable for the Auditor General for Wales to meet that deadline.

(2B) Where sub-paragraph (2A) applies, the Auditor General for Wales must—

(a) before the four-month deadline mentioned in sub-paragraph (2)(b), lay before ~~the Assembly~~Senedd Cymru a statement explaining why it is not reasonably practicable for the Auditor General for Wales to lay a copy of the certified accounts and report before ~~the Assembly~~Senedd Cymru before that deadline, and

(b) lay a copy of the certified accounts and report before ~~the Assembly~~Senedd Cymru as soon as reasonably practicable after that deadline."

*Cyngor y Gweithlu Addysg*

4 Mae paragraff 21 o Atodlen 1 i Ddeddf Addysg (Cymru) 2014 (dccc 5) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

5 ~~Ar ddechrau~~Yn is-baragraff (4)(b)~~,~~—

(a) ar y dechrau mewnosoder "(yn ddarostyngedig i is-baragraff (4A))"~~.~~;

(b) yn lle "Cynulliad Cenedlaethol Cymru" rhodder "Senedd Cymru".

6 Ar ôl is-baragraff (4), mewnosoder—

"(4A) Caiff Archwilydd Cyffredinol Cymru osod copi o'r cyfrifon ardystiedig a'r adroddiad gerbron ~~y Cynulliad~~Senedd Cymru ar ôl y terfyn amser o bedwar mis a grybwyllir yn is-baragraff (4)(b) pan na fo'n rhesymol ymarferol i Archwilydd Cyffredinol Cymru gadw at y terfyn amser hwnnw.

(4B) Pan fo is-baragraff (4A) yn gymwys, rhaid i Archwilydd Cyffredinol Cymru—

(a) cyn y terfyn amser o bedwar mis a grybwyllir yn is-baragraff (4)(b), osod gerbron ~~y Cynulliad~~Senedd Cymru ddatganiad yn esbonio pam nad yw'n rhesymol ymarferol ~~i'r~~i Archwilydd Cyffredinol Cymru osod copi o'r cyfrifon ardystiedig a'r adroddiad gerbron ~~y Cynulliad~~Senedd Cymru cyn y terfyn amser hwnnw, a

(b) gosod copi o'r cyfrifon ardystiedig a'r adroddiad gerbron ~~y Cynulliad~~Senedd Cymru cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl y terfyn amser hwnnw."

*Estyn*

7 Mae paragraff 6 o Atodlen 6 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 (p. 38) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

8 ~~Ar ddechrau~~Yn is-baragraff (2)(b)~~,~~—

(a) ar y dechrau mewnosoder "(subject to sub-paragraph (2A))"~~.~~;

(b) yn lle "the Assembly" rhodder "Senedd Cymru".

9 Ar ôl is-baragraff (2), mewnosoder—

"(2A) The Auditor General for Wales may lay a copy of the certified accounts and report before ~~the Assembly~~Senedd Cymru after the four-month deadline mentioned in sub-paragraph (2)(b) where it is not reasonably practicable for the Auditor General for Wales to meet that deadline.

(2B) Where sub-paragraph (2A) applies, the Auditor General for Wales must—

(a) before the four-month deadline mentioned in sub-paragraph (2)(b), lay before ~~the Assembly~~Senedd Cymru a statement explaining why it is not reasonably practicable for the Auditor General for Wales to lay a copy of the certified accounts and report before ~~the Assembly~~Senedd Cymru before that deadline, and

(b) lay a copy of the certified accounts and report before ~~the Assembly~~Senedd Cymru as soon as reasonably practicable after that deadline."

*Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol*

10 Mae paragraff 21 o Atodlen 2 i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (dccc 2) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

11 ~~Ar ddechrau~~Yn is-baragraff (2)(b)~~,~~—

(a) ar y dechrau mewnosoder "(yn ddarostyngedig i is-baragraff (2A))"~~.~~;

(b) yn lle "y Cynulliad Cenedlaethol" rhodder "Senedd Cymru".

12 Ar ôl is-baragraff (2), mewnosoder—

"(2A) Caiff yr Archwilydd Cyffredinol osod copi o'r cyfrifon ardystiedig a'r adroddiad gerbron ~~y Cynulliad Cenedlaethol~~Senedd Cymru ar ôl y terfyn amser o bedwar mis a grybwyllir yn is-baragraff (2)(b) pan na fo'n rhesymol ymarferol i'r Archwilydd Cyffredinol gadw at y terfyn amser hwnnw.

(2B) Pan fo is-baragraff (2A) yn gymwys, rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol—

(a) cyn y terfyn amser o bedwar mis a grybwyllir yn is-baragraff (2)(b), osod gerbron ~~y Cynulliad~~Senedd Cymru ddatganiad yn esbonio pam nad yw'n rhesymol ymarferol i'r Archwilydd Cyffredinol osod copi o'r cyfrifon ardystiedig a'r adroddiad gerbron ~~y Cynulliad Cenedlaethol~~Senedd Cymru cyn y terfyn amser hwnnw, a

(b) gosod copi o'r cyfrifon ardystiedig a'r adroddiad gerbron ~~y Cynulliad~~Senedd Cymru cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl y terfyn amser hwnnw."

*Addysg a Gwella Iechyd Cymru, Byrddau Iechyd Lleol ac ymddiriedolaethau'r GIG*

13 Mae adran 61 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (p. 23) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

14 ~~Ar ddechrau~~Yn is-adran (2)(b)~~,~~—

(a) ar y dechrau mewnosoder "(subject to subsection (2A))"~~.~~;

(b) yn lle "the National Assembly for Wales" rhodder "Senedd Cymru".

15 Ar ôl is-adran (2) mewnosoder—

"(2A) The Auditor General for Wales may lay a copy of the certified accounts and report before ~~the National Assembly for Wales~~Senedd Cymru after the four-month deadline mentioned in ~~sub-paragraph~~subsection (2)(b) where it is not reasonably practicable for the Auditor General for Wales to meet that deadline.

(2B) Where subsection (2A) applies, the Auditor General for Wales must—

(a) before the four-month deadline mentioned in subsection (2)(b), lay before ~~the National Assembly for Wales~~Senedd Cymru a statement explaining why it is not reasonably practicable for the Auditor General for Wales to lay a copy of the certified accounts and report before ~~the National Assembly for Wales~~Senedd Cymru before that deadline, and

(b) lay a copy of the certified accounts and report before the ~~National Assembly for Wales~~Senedd Cymru as soon as reasonably practicable after that deadline."

*Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru*

16 Mae adran 19 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 (dccc 4) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

17 ~~Ar ddechrau~~Yn is-adran (4)(b)~~,~~—

(a) ar y dechrau mewnosoder "(yn ddarostyngedig i is–adran (4A))"~~.~~;

(b) yn lle "Cynulliad Cenedlaethol Cymru" rhodder "Senedd Cymru".

18 Ar ôl is-adran (4), mewnosoder—

"(4A) Caiff Archwilydd Cyffredinol Cymru osod copi o'r cyfrifon ardystiedig a'r adroddiad gerbron ~~Cynulliad Cenedlaethol~~Senedd Cymru ar ôl y terfyn amser o ~~bedwar~~4 mis a grybwyllir yn ~~is-baragraff~~is-adran (4)(b) pan na fo'n rhesymol ymarferol i Archwilydd Cyffredinol Cymru gadw at y terfyn amser hwnnw.

(4B) Pan fo is-adran (4A) yn gymwys, rhaid i Archwilydd Cyffredinol Cymru—

(a) cyn y terfyn amser o ~~bedwar~~4 mis a grybwyllir yn is-adran (4)(b), osod gerbron ~~Cynulliad Cenedlaethol~~Senedd Cymru ddatganiad yn esbonio pam nad yw'n rhesymol ymarferol i Archwilydd Cyffredinol Cymru osod copi o'r cyfrifon ardystiedig a'r adroddiad gerbron ~~Cynulliad Cenedlaethol~~Senedd Cymru cyn y terfyn amser hwnnw, a

(b) gosod copi o'r cyfrifon ardystiedig a'r adroddiad gerbron ~~Cynulliad Cenedlaethol~~Senedd Cymru cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl y terfyn amser hwnnw."

*Comisiwn ~~Cynulliad Cenedlaethol Cymru~~y Senedd*

19 Mae adran 137 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

20 Ar ddechrau is-adran (5)(b), mewnosoder "(subject to ~~sub-section~~subsection (5A))".

21 Ar ôl is-adran (5) mewnosoder—

"(5A) The Auditor General may lay a copy of the certified accounts and report before the ~~Assembly~~Senedd after the four-month deadline mentioned in subsection (5)(b) where it is not reasonably practicable for the Auditor General to meet that deadline.

